

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU
CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Rhagfyr 2021

Amser: 2:00pm

Lleoliad: Cyfarfod rhithwir drwy Microsoft Teams

AGENDA

1.	Croeso ac ymddiheuriadau	2:00 - 2:05	
2.	Cofnodion mis Mai 2021, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi	2:05 – 2:15	WPMC(21)M23
3.	Diweddariad ar gynnydd Cronfeydd ESI, gan gynnwys datblygiadau portffolio: • RDP • ERDF • ESF	2:15 – 2:35 2:35 – 2:55 2:55 – 3:15	
4.	Diweddariad ar y themau trawsbynciol	3:15 – 3:35	
5.	Diweddariad ar werthuso	3:35 – 3:45	
6.	Diweddariad ar gyfathrebu o ran y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd	3:45 – 4:00	
7.	Trefniadau ar ôl yr ymadawiad â'r UE	4:00 – 4:20	
8.	Unrhyw fater arall	4:20 – 4:30	

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU
CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**Dydd Iau 20 Mai 2021
Cyfarfod Rhithwir drwy Microsoft Teams.**

Cofnodion

EITEM 1: Croeso ac Ymddiheuriadau

1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir o Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru (PMRh) gan egluro, ar gyfer y cyfarfod hwn, y byddai rôl y Cadeirydd yn cael ei chyflawni fel rôl ddirprwyol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau aros tan ddiwedd y cyfarfod er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn gworwm i gymeradwyo'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AGBau).
2. Rhestrir y rhai sy'n bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A**.
3. Hysbysodd y Cadeirydd (a) yr Aelodau am brotocolau/cyfarwyddiadau'r cyfarfod ar gyfer defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a (b) diolchodd iddynt am eu sylwadau mewn perthynas ag Addasiad 4 y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) a gymeradwywyd wedyn gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE).

EITEM 2: Cofnodion cyfarfod Tachwedd 2020, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi

4. Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir ac nid oedd unrhyw gamau yn parhau ar y gweill.

EITEM 3: Diweddariad ar Gynnydd y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd

Trosolwg o'r Cronfeydd Strwythurol:

Rhaglen Datblygu Gwledig

5. Rhoddodd Ryan Doyle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth, ddiweddariad ar y RhDG 2014-2020:
 - Mae'r RhDG yn parhau i wneud cynnydd da o ran gweithredu. Mae'r gwario'n cynyddu'n gyson. Ar ddiwedd mis Mawrth 2021, mae lefel ymrwymiad prosiectau yn £743 miliwn, sy'n cynrychioli ymrwymiad o 89% mewn cronfeydd, cyfanswm gwerth y rhaglen yw £838,292,986.
 - Cynyddodd gwariant y rhaglen hyd yma £57 miliwn a mwy ers y PMRh diwethaf i £512 miliwn (£364 miliwn Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig), o'r ffigur hwn, mae £199 miliwn yn gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn I. Nid yw'r rhagolygon presennol yn dangos unrhyw faterion o ran cyflawni'r Rhaglen yn llawn.

- Mae nifer o ffenestri'r Cynllun wedi agor ers y PMRh diwethaf, gyda lefel y diddordeb/defnydd uwchlaw unrhyw ddisgwyliadau, yn enwedig mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig newydd.
- O fis Ebrill 2021, bydd cyllid domestig newydd yn disodli cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yng Nghymru, gan ymateb i flaenoriaethau domestig, a fydd yn cyd-fynd â/ategu cynlluniau presennol RhDG yr UE.
- Edrychwyd o'r newydd ar dystiolaeth er mwyn datblygu llinell sylfaen newydd ar gyfer cael dadansoddiad o'r sefyllfa i ddeall y ffordd y bydd unrhyw fylchau mewn deallusrwydd a'r ffordd y bydd themâu sy'n codi yn cysylltu â'n hymrwymadau rhyngwladol, ein hanghenion gwledig a'n blaenoriaethau cenedlaethol ar les, bioamrywiaeth a newid hinsawdd.
- Oedi wrth gyhoeddi adroddiadau monitro misol oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau yn y tîm monitro. Mae/bydd camau lliniaru'n parhau i gael eu hymgorffori, ac mae data yn cael ei gyhoeddi bellach o 31 Mawrth 2021.
Roedd yr amrywiant rhwng gwerthoedd ymrwymiad a gwariant yn yr adroddiadau bob amser wedi rhagweld y bydd cyfran cymharol sylweddol o'r rhaglen yn digwydd ar ganol i ddiwedd y rhaglen. Felly bydd lefel uchel o'r dangosyddion yn cael eu cofnodi ar ddiwedd y cynlluniau.

Blaenoriaeth 2 - Gwella hyfywedd ffermydd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol ac ym mhob rhanbarth gan hyrwyddo technolegau ffermio arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar gyfer coedwigoedd.

- Prif feysydd y Rhaglen sy'n cyfrannu at Flaenoriaeth 2 yw: Cyswllt Ffermio (CFf), y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (CCG), y Grant Busnes i Ffermydd (GBFf) a Phartneriaeth Arloesi Ewrop (PAE) ar gyfer Cynhyrchiant Amaethyddol a Chynaliadwyedd.
- Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (Mesur 1) – mae'n parhau i ddarparu cymorth er mwyn trawsnewid rhagolygon busnes mloedd o ffermwyr a choedwigwyr. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn adrodd cyflawniadau bob chwarter ac ar 31 Mawrth 2021, roedd cyfanswm o 11,742 o fusnesau a 24,464 o unigolion wedi cofrestru/ymgysylltu â'r rhaglen.
- Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig (Mesur 2) – mae'n darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol i fusnesau Cyswllt Ffermio (CFf) cofrestredig. Ar 31 Mawrth 2021, roedd cyfanswm o 5,495 o fusnesau wedi elwa ar gymorth busnes a/neu gyngor technegol, a oedd wedi'i deilwra i'w hanghenion busnes. Cydnabod cynnydd sylweddol yn y gwasanaeth cynghori yn seiliedig ar grwpiau gyda 3,271 o unigolion yn cael eu cefnogi drwy ymgysylltu â 946 o grwpiau. Adroddodd CFf fod nifer sylweddol o'r ceisiadau hyn yn gofyn am gymorth ar gyfer gweithgareddau arallgyfeirio.

Blaenoriaeth 3 - Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd, gan gynnwys prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol, lles anifeiliaid a rheoli risg mewn amaethyddiaeth

- Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (CBBB) - cynllun sy'n cyfrannu at allbynnau dan Flaenoriaeth 3. Hyd yma, mae CBBB wedi arwain at £157 miliwn a mwy o fuddsoddiadau cyfalaf newydd i Gymru ac mae'n parhau i ddenu buddsoddiadau newydd/cyffrous yn y sector, gan helpu i gynorthwyo/cefnogi'r sector bwyd-amaeth.
- Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (CBBG) – Bwyd, cynllun buddsoddi cyfalaf ar gyfer prosesu bwyd/diod neu weithgareddau gweithgynhyrchu nad ydynt yn gymwys ar gyfer CBBB. Cyfanswm y buddsoddiad hyd yma £5.8 miliwn.

Blaenoriaeth 4 - Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.

- Mesur 10 Glastir Uwch – (a) deiliaid contract y mae eu contractau 5 mlynedd cychwynnol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 yn cael cynnig adnewyddu, (b) y rhai y mae eu contractau

wedi'u hadnewyddu'n flaenorol yn cael cynnig estyniad, tan 31 Rhagfyr 2021. Cyhoeddodd Taliadau Gwledig Cymru (TGC) 1228 o gynigion contract gwerth £17.3 miliwn, a derbyniwyd 1110 ohonynt, sef gwerth £16.7 miliwn.

- Glastir - Tir Comin - roedd 132 o'r contractau presennol i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Cynigiwyd estyniad i bob un tan 31 Rhagfyr 2021. Derbyniodd 131 gyda chontractau estynedig gwerth £4 miliwn.
- Glastir Organig - Roedd 497 o'r contractau presennol i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Derbyniodd 479 o ddeiliaid contractau y cynnig i ymestyn contractau tan 31 Rhagfyr 2021, gyda chontractau estynedig gwerth £3.27 miliwn.
- Mae Mesur 4.4 yn cefnogi Cynllun Grantiau Bach Glastir - derbyniwyd 2035 o geisiadau yn ffenestr Dŵr Cynllun Grantiau Bach Glastir 2020 erbyn y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau sef 31 Mawrth 2021, sef gwerth £1.9 miliwn a mwy. Hyd yma, mae tua 24% o'r ceisiadau wedi'u talu. Mae TGC wedi rhoi estyniadau i gwsmeriaid nad ydynt yn gallu cwblhau gwaith oherwydd COVID-19 a/neu dywydd gwlyb. Mae 747 o gontractau estynedig yn parhau heb eu talu sef gwerth £455,728.23 - mae'n rhaid i gwsmeriaid gwblhau'r gwaith erbyn 30 Mehefin 2021 neu 31 Rhagfyr 2021 yn dibynnu ar yr opsiwn Gwaith Cyfalaf.
- Carbon 2021 - bydd 1,038 o gontractau'n cael eu rhoi i fusnesau fferm, sef gwerth £1.5 miliwn a mwy. Hyd yma, rhoddwyd 943 o gontractau gyda 767 yn derbyn, sef gwerth £1,070,089.97.
- Tirwedd a Pheillwyr 2021 - mae'r ffenestr i ddatgan diddordeb ar agor ar hyn o bryd. Blaenoriaeth 5 - Hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau a chynorthwyo'r gwaith o symud at economi carbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.
- Creu Coetir Glastir (CCG) ffenestr 8 - mae gan ymgeiswyr llwyddiannus tan 31 Mawrth 2022 i gwblhau eu prosiectau ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno pob cais erbyn 30 Ebrill 2022.
- Ffenestr 9 CCG, cyllideb o £8 miliwn - gofynnwyd i gwsmeriaid ddewis blwyddyn ymgeisio o naill ai (a) 2021/ 22 neu (b) 2022/ 23. Er nad oes dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau ar gyfer ffenestr 9 CCG, bydd angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn neilltuo digon o amser i ganiatáu i'r broses ddilysu gael ei chwblhau ac er mwyn i'r coetir newydd gael ei sefydlu cyn y dyddiad ymgeisio terfynol.
- Ffenestr 10 CCG, cyllideb o £9 miliwn - derbyniwyd 200 o ddatganiadau o ddiddordeb sydd â gwerth gwaith cyfalaf o £13 miliwn yn ôl yr amcangyfrif. Bydd y broses a fabwysiadwyd ar gyfer ffenestr 9 yn cael ei hailadrodd yma. .
- Ffenestr 8 Adfer Coetir Glastir (ACG) - darparwyd yr opsiynau ymgeisio canlynol i ymgeiswyr llwyddiannus: (a) prosiectau blwyddyn ymgeisio 1 i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2022, gyda cheisiadau wedi'u cyflwyno erbyn 30 Ebrill 2022, (b) prosiectau blwyddyn ymgeisio 2 i'w cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023, gyda cheisiadau wedi'u cyflwyno erbyn 30 Ebrill 2023.
- Ffenestr 9 ACG - ar agor ar hyn o bryd gyda chyllideb o £1 miliwn.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni 4 rownd lwyddiannus o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (CBBP) dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae CBBP wedi galluogi perchnogion coedwigoedd preifat, awdurdodau lleol neu berchnogion coedwigoedd eraill yn y sector cyhoeddus i wneud buddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at y coedwigoedd yng Nghymru drwy weithgareddau rheoli coetiroedd, drwy gynaeafu pren a/neu drwy brosesu pren. Daeth y ffenestr i ddatgan diddordeb ar gyfer y 5ed rownd i ben ar 9 Ebrill 2021. Derbyniwyd 50 o ddatganiadau o ddiddordeb, sy'n cael eu hasesu/sgorio ar hyn o bryd yn erbyn meini prawf blaenoriaeth. Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i ddrafftio ceisiadau llawn.

Blaenoriaeth 6 - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, gwaith i leihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig.

- Mae'r cynlluniau a gefnogir yn cynnwys LEADER ynghyd â'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (GDCG), CBBP a chynllun Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW). Mae'r RBIS newydd (Anamaethyddol) wedi'i gynnwys hefyd.
- Mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER Cymru yn darparu gwasanaeth pwysig i gymunedau gwledig, ac mae ganddynt rôl weithredol ar yr adeg hon o heriau digynsail. Mae LEADER wedi profi ei fod yn arf economaidd-gymdeithasol defnyddiol yn yr ymateb uniongyrchol i COVID-19 a bydd yn parhau i fod felly yn y broses adfer tymor hwy. Roedd 4ydd Gwelliant y Rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) yn cynnwys newid i Fesur (19) LEADER i ddileu'r cyfyngiad blaenorol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun LEADER Cymru gyflawni ar sail "dim Cymorth". Er na fydd y broses o weithredu mwyafrif y Grwpiau Gweithredu Lleol (GGLI) yn cyfateb i Gymorth Gwladwriaethol o hyd, mae cynnig Llywodraeth Cymru yn cynnwys caniatáu i GGLlau ddefnyddio de minimis diwydiannol i sicrhau darpariaeth, dan rai amgylchiadau. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r GGLlau gefnogi darpariaeth leol ar gyfer cymunedau gwledig a'r economi.
- Mae nifer o brosiectau CBBP wedi cyd-fynd ag Ardal Ffocws 6A yn hytrach na 5C. Mae 95% o'r targed gwreiddiol ar gyfer Gweithrediadau a Gefnogir dan Ardal Ffocws 6A wedi'i gyflawni.
- Dangosydd canlyniadau ar gyfer Swyddi a Grëwyd - ni fydd yn cael ei wireddu hyd nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ac felly mae'n dangos lefel cyflawni isel hyd yma. Mae cynllun newydd, sef RBIS Anamaethyddol sydd â'r nod o greu swyddi, wedi'i gyflwyno i helpu i gyflawni'r targed hwn a derbynnir ceisiadau ar ei gyfer ar hyn o bryd. Bydd cyflwyno'r rhaglen LEADER ar gyfer cynnwys Cymorth Gwladwriaethol hefyd yn cefnogi mesurau creu swyddi.

Daeth Ryan Doyle i'r casgliad canlynol - mae data'n dangos bod y Rhaglen yn mynd rhagddi'n dda gyda gwariant a gweithgarwch yn cynyddu'n sylweddol ers y PMRh diwethaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro'n ofalus cynnydd y CDG er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.

6. Wrth drafod, cododd yr Aelodau y materion canlynol:

- Pryderon ynghylch (a) pa mor aml caiff adroddiadau RhDG eu lanlwytho i wefan Llywodraeth Cymru, gyda rhai yn ymddangos 6 mis yn ddiweddarach, gan effeithio ar allu y PMRh i fonitro'r broses o weithredu'r CDG a (b) a'r ffaith bod EnRAW wedi'i hepgor o'r adroddiad. Cydnabuwyd bod COVID-19 a materion ynghylch cael gafael ar adnoddau wedi effeithio ar fynychder gwaith adrodd ac y bydd hyn, ynghyd â'r gwaith dadansoddi data sy'n ymwneud ag EnRAW a rhestr o brosiectau economaidd-gymdeithasol, yn cael sylw gan y CDG.
- Dichonoldeb sicrhau gwariant llawn ar gyfer y rhaglen o ystyried y materion canlynol (a) mae cyfradd bresennol y gwariant yn cyfateb i 61%, (b) cyfnod amser cyfyngedig (30 mis) o'r rhaglen sy'n weddill felly o bosibl mae angen gweld y gyfradd wario yn dyblu i £11 miliwn, (c) goblygiadau ar gyfer (i) Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a (ii) Debydu, pe na bai'r proffil gwariant ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflawni a (ch) bod proffilio risg cynlluniau'r RhDG yn ateb posibl a awgrymir ar gyfer mynd i'r afael â'r lefelau gwariant isel a welir mewn rhai meysydd rhaglen. Cynghorwyd yr Aelodau (a) bod y rhan fwyaf o feysydd y rhaglen wedi'u gor-ymrwymo, er bod COVID-19 wedi llesteirio amserlenni presennol/penodol, (b) bydd cynlluniau newydd yn cael eu hagor pan fo adnoddau ariannu

yn caniatáu hynny ac (c) bydd yr holl ddata perthnasol ar gyfer monitro rhaglenni ar gael i'r Aelodau er mwyn sicrhau ymrwymiad/gwariant llawn.

- Adroddiad Archwilio Cymru 2020 - sicrwydd bod yr holl gyllid/dyraniadau, o ganlyniad i'r adroddiad, yn amodol ar ofynion cystadleuaeth/gwerth am arian, gyda'r un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i geisiadau am arian ychwanegol, ynghyd â mynd i'r afael ag effaith/llywyddiant. Cadarnhaodd Hugh Morgan (HM), Pennaeth yr Is-adran Taliadau Gwledig, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig fod yr holl argymhellion perthnasol ar gyfer arian gwerth yn cael eu dilyn. Yn ogystal, cwblhawyd yr archwiliad ar gyfer cyfrifon 2020 a disgwyliar i Archwilio Cymru ddychwelyd ym mis Chwefror 2022 i archwilio cyfrifon 2021.
 - Gofynnodd yr Aelodau a fyddai unrhyw ymwneud yn y dyfodol yn cynnwys gwerthusiadau, gan sicrhau gwell dealltwriaeth o effaith buddsoddi a'r gwersi a ddysgwyd. Bydd hyn yn cael ei ddarparu a bydd yr holl adroddiadau gwerthuso yn cael eu rhannu â'r PMRh.
 - Codwyd nifer o bwyntiau mewn perthynas â thaenlen y RhDG sy'n nodi dyraniadau/ymrwymadau a gwariant - (a) eglurhad o'r amserlen sy'n cael ei dangos, (b) pryd mae'r daenlen ar gael drwy wefan Llywodraeth Cymru (sy'n golygu mai ychydig iawn o amser y mae Aelodau yn ei gael i ystyried y data diweddaraf) ac (c) cynnwys yr holl ffigurau gwariant/dyrannu ar gyfer pob maes y RhDG gan sicrhau cysondeb y data/dull gweithredu. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y ddogfen Ddiweddarau ar gyfer y Rhaglen RhDG yn cael ei hailystyried er mwyn sicrhau y caiff y ddolen at 'Ddata Monitro' ei hatgyweirio gan sicrhau mynediad at y data diweddaraf ar gyfer yr holl Aelodau ac y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu o leiaf wythnos cyn y cyfarfod yn y dyfodol.
 - Dywedodd cynrychiolydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn gyffredinol, ei fod yn fodlon ar y broses o weithredu'r CDG, sydd ar hyn o bryd yn 65% ar gyfer Cymru o'i gymharu â chyfartaledd yr UE o 69%. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr angen am ffenestri i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb yn y dyfodol. Hysbysodd yr Aelodau o gyfarfod arfaethedig rhwng Llywodraeth Cymru a'r CE, lle bydd yr holl bwyntiau hyn yn cael eu trafod yn fanylach.
7. Amlinellodd Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredol WEFO, sefyllfa gyffredinol rhaglenni'r Gronfa Strwythurol (CS). Mae'r pedair rhaglen yn parhau i wneud cynnydd da yn ystod yr hyn a fu'n gyfnod anodd ac ers cyfarfod diwethaf y PMRh, ac mae'n dda gweld y ffordd y mae'r rhaglenni wedi goroesi'r pandemig oherwydd 15 mis yn ôl roedd pryderon difrifol ynghylch a oedd gan weithrediadau'r gallu i gyflawni. Mae'r gweithrediadau wedi parhau i gyflawni ac wedi bod yn wydn iawn. Fodd bynnag, roedd effaith amlwg ar rai gweithrediadau lle na fu'n bosibl cynnal gweithgarwch/darpariaeth wyneb yn wyneb.
8. Hyd yma, roedd 99% o'r arian a ymrwymwyd yn cyfateb i £2.1 biliwn, gyda 266 o weithrediadau. Mae 11 o weithrediadau'n parhau yn y cam cynllunio busnes. Mae'r ffigurau cyfredol yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o €1.10/ £1, fodd bynnag mae'r gyfradd heddiw yn €1.16/ £1 – mae'r gyfradd hon yn cael ei hadolygu ym Mwrdd Perfformiad Rhaglen WEFO yn fisol oherwydd amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid a'r tebygolrwydd y bydd angen diwygio cyfradd gynllunio WEFO. Oherwydd pandemig COVID-19, symudwyd Cronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau a symudwyd arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi blaenoriaeth iechyd newydd.
9. **Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (CDRhE)**
- Cymeradwywyd 149 o weithrediadau gyda dros £1.27 biliwn wedi'u hymrwymo.

- Dyma sydd ymhlith yr hyn a gymeradwywyd a'r estyniadau y cytunwyd arnynt ers y PMRh diwethaf:
 - Dau o weithrediadau Ynni Ar Raddfa Gymunedol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd - Hydro Gymunedol Clydach – £0.6 miliwn ac Energy Worx Aberfan, Mount Pleasant ac Ynysowen - £1.2 miliwn.
 - £1.5 miliwn o arian yr UE ar gyfer prosiect Chwyldro Cylchol dan arweiniad Riversimple mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerwysg a Phrifysgol Abertawe i sefydlu canolbwynt economi gylchol i ddatblygu cynaliadwyedd a helpu i adeiladu'r economi Werdd yng Nghymru.
 - £672,000 yn ychwanegol i brosiect SER Cymru II Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect yn cefnogi cymrodoriaethau mewn unrhyw feysydd ymchwil sy'n berthnasol i'r tair colofn yn y strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar arbenigo ac arloesi clyfar.
 - Arian ychwanegol yr UE o £890,000 i ymestyn prosiect Sefydliad Ymchwil Peirianeg a Deunyddiau Uwch TWI Ltd o Bort Talbot tan fis Mehefin 2023, gan gynyddu nifer yr ymchwilwyr a phartneriaid sy'n gallu gweithio gyda'r cyfleuster profi a gwerthuso o'r radd flaenaf, gan ddod â chyfanswm cyllid prosiect yr UE i £8.4 miliwn.
- Mae ERDF wedi ymrwymo £56 miliwn ar gyfer **Ymateb Covid-19** ym Mlaenoriaeth 2 yn bennaf i gefnogi cyllid busnes drwy'r Banc Datblygu (£40 miliwn) a £16 miliwn arall i gefnogi cymorth busnes.
- Gwariwyd cyfanswm o £575 miliwn sef 47% o'r arian sydd ar gael ac er bod hyn yn galonogol ar yr adeg hon o'r rhaglen, rydym y tu ôl i'r lefelau gwariant cyfartalog ar gyfer y DU sef 49% a'r cyfartaledd ar gyfer yr UE sef 53%. Nid yw WEFO yn pryderu'n ormodol, oherwydd bod cyllid y ddwy raglen ERDF wedi'u gor-ymrwymo, felly dylid sicrhau y gellir cyfrif am unrhyw danwariant a bod y defnydd mwyaf posibl o'r cronfeydd wedi'i wneud erbyn i'r rhaglen gau.
- Mae ERDF Dwyrain Cymru wedi cyrraedd ei darged N+3 ar gyfer 2021 ac ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyrraedd targed Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yr haf hwn.
- Mae ERDF yn gronfa wedi'i phwysoli gyda nifer o weithrediadau strategol fel rheilffyrdd a ffyrdd sydd â phroffiliau gwariant sylweddol ar gyfer y 2 flynedd nesaf.
- Mae rhai gweithrediadau wedi cael trafferth cynnal proffiliau gwariant yn ystod y pandemig h.y. Mae gweithgareddau cydweithio Datblygu, Ymchwil ac Arloesi wedi bod yn llawer arafach gan nad yw prifysgolion wedi gallu gweithio o gyfleusterau labordy gyda busnesau bach a chanolig gan fod staff wedi bod yn gweithio gartref.
- Bu'n rhaid i weithrediadau eraill gymryd ymagwedd arafach gan fod y pandemig wedi effeithio ar y gadwyn gyflenwi. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod hyn bellach yn gwella a bod gweithrediadau fel prosiectau Morol yn gallu symud ymlaen.
- Yn gyffredinol, mae gweithrediadau wedi bod yn arafach wrth baratoi ceisiadau gan fod staff wedi bod yn gweithio gartref ac nad ydynt wedi cael mynediad at ddogfennau gwariant, mae hyn eto'n gwella felly rhagwelir y bydd y gwariant yn cynyddu.
- Ar yr ochr mwy cadarnhaol, mae rhai gweithrediadau h.y. Cyllid wedi gweld cynnydd mewn gwariant gyda busnesau sy'n ceisio cymorth ariannol yn cael cefnogaeth ERDF, ac felly cafwyd buddsoddiad o £40 miliwn i Gronfa Busnes Cymru a £16 miliwn i gymorth busnes.

10. Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE)

- Cymeradwywyd 117 o weithrediadau gyda £857 miliwn wedi'i ymrwymo.
- Ymhlith yr hyn a gymeradwywyd a'r estyniadau ers cyfarfod diwethaf y PMRh mae:

- £3.6 miliwn o arian yr UE ar gyfer prosiect InFuSe, dan arweiniad Cyngor Sir Fynwy ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Y Lab Cymru a Nesta UK i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus arloesol i gymunedau lleol (a lansiwyd ar 4 Mai).
- £1.2 miliwn o arian yr UE ar gyfer prosiect 'Gweithio Abertawe' Cyngor Abertawe, sy'n cysylltu â rhaglenni Gweithffyrdd + a Chymunedau am Waith lleol sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor byr.
- Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud yn y Flaenoriaeth Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Blaenoriaeth 5) lle mae'r tri gweithrediad sy'n weddill bellach wedi'u cymeradwyo. Dyfarnwyd £0.9 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (£0.5 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £0.4 miliwn yn Nwyrain Cymru) i Swyddfa Gydweithredu Tyfu Canolbarth Cymru, dan arweiniad Cyngor Sir Ceredigion, i sefydlu Swyddfa Cydweithredu Rhanbarthol fel math newydd o gapasiti rhanbarthol ac i hyrwyddo gweithio rhanbarthol yn y Canolbarth.
- Dyfarnwyd £2.9 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) i Brosiect Cyflymiad ac Adfywio Economaidd drwy Arloesedd (EARTH), dan arweiniad Cyngor Sir Caerfyrddin, i ddatblygu mathau newydd o weithio rhanbarthol yn y De-orllewin.
- Mae sefyllfa gwariant CGE yn iach iawn ac ymhell o flaen unrhyw feincnodi rhesymol. Mae'r ddwy raglen wedi cyrraedd eu targed N+3 yn 2021.
- Mae WEFO yn parhau i gydweithio â'r prosiectau cyflogadwyedd a chydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y prosiectau a ariennir gan CGE ochr yn ochr â'r rhaglenni cyflogadwyedd newydd sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU (Kickstart a Restart).
- Ym mis Ionawr, cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd yn ffurfiol i'r cynigion addasu ar gyfer ychwanegu echel newydd Blaenoriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Covid-19 at y rhaglenni CGE. Bydd WEFO yn parhau i gydweithio ag Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r defnydd/darpariaeth orau/mwyaf priodol o'r cronfeydd hyn.
- Mae dau o weithrediadau sy'n gysylltiedig ag iechyd, un ym mhob maes rhaglen a'r ddau wedi'u harwain gan Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn cael eu datblygu ar hyn o bryd dan Flaenoriaeth 6.
- Mae'r siart cylch (Sleid 6) yn dangos nad oes fawr ddim wedi newid, fodd bynnag, mae'n ein hatgoffa sut rydym yn rhoi arian yn yr economi.

11. Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Peter ddiweddariad i'r Aelodau hefyd o ran y pynciau canlynol:

- **Rheoli prosesau cau gweithrediadau** – dim ond yn ddiweddar y darparodd WEFO ganllawiau cau ac felly cadarnhad o'r hyn sy'n ddisgwyliedig. Ar hyn o bryd, mae WEFO yn datblygu'r broses ar gyfer cau er mwyn sicrhau bod gweithrediadau/buddiolwyr yn cau mewn modd amserol er mwyn hawlio gan y CE. Bydd rhai gweithrediadau'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2023 a fydd yn dynn o ran cau ac oherwydd y ffaith bod gweithrediadau eraill yn gofyn am ymestyn hyd fis Rhagfyr 2023 oherwydd effaith COVID-19. Bydd hyn yn creu problem wrth i fwy o weithrediadau gwblhau tua diwedd y cyfnod N+3 ac felly nid oes llawer o amser i fynd i'r afael â'r broses gau. Bydd hwn yn ddarn pwysig o waith rheoli prosiectau i WEFO ac i fuddiolwyr, ynghyd â'r elfen ychwanegol o ddangos/cyflawni'r broses o bontio ar ôl i'r Cronfeydd Strwythurol ddod i ben.

- **Canlyniadau etholiadau a'r Cabinet** – er eu bod yn wynebau cyfarwydd yn y Cabinet, bydd blaenoriaethau'n newid ac mae yna deimlad gwirioneddol y bydd pethau'n wahanol ar gyfer y tymor nesaf. Mae Gweinidogion yn gosod rhaglenni egniïol gyda phwyslais trawslywodraethol ac mae portffolio Julie James, AS a'r Gweinidog Newid Hinsawdd, yn un sylweddol iawn sy'n cwmpasu cynllunio, tai a thrafnidiaeth etc.
- Mae arwyddion y bydd y llywodraeth hon yn gweithio'n wahanol, fodd bynnag, nid oes disgwyl pwysau i ail-alinio'r rhaglenni gan fod y rhaglenni presennol yn gweithredu mewn llawer o'r manau hynny.
- Mae WEFO bellach dan ofal Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, sy'n awyddus i WEFO wneud yn fawr o arian yr UE sydd ar gael dros y blynyddoedd nesaf.

- **Cyfraddau Cyfnewid** - mae gwerth y rhaglen wedi'i gytuno mewn Ewros gyda'r CE ar ddechrau cyfnod y rhaglen. Cyfrifir eu gwerth mewn sterling wrth i'r rhaglenni gael eu gweithredu ac wrth i'r cronfeydd gael eu codi o'r UE. Ni fydd unrhyw raglenni dilynol fel y rhai y mae WEFO/LIC wedi dibynnu arnynt yn flaenorol fel dull o reoli gor-ymrwymiad. Bydd hyn yn effeithio ar archwaeth/hyblygrwydd/dyfarniadau risg WEFO mewn perthynas â'r gweithrediadau y gellir parhau i'w cefnogi/ymestyn. Mae pob rhaglen yn bwriadu gor-ymrwymo er mwyn sicrhau ein bod, ar ddiwedd y rhaglen, wedi codi'r cyfanswm uchaf posibl o arian. O ystyried amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid, ac er bod y gyfradd gynllunio o €1:10/ £1 yn cyfateb i 99% o'r arian sy'n cael ei ddyrannu, mae'n debygol y bydd y gyfradd gynllunio'n cynyddu felly mae'r ddwy raglen yn rheoli gor-ymrwymiaid posibl ar y gyfradd uwch. Mae'n rhaid rheoli unrhyw or-ymrwymiaid o'r fath er mwyn sicrhau bod digon o arian i dalu buddiolwyr. Mae WEFO yn parhau i gydweithio'n agos â chydweithwyr Adran Gyllid Llywodraeth Cymru er mwyn rheoli'r sefyllfa gan y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru, yn y pen draw, ad-dalu buddiolwyr os/ pan fo unrhyw ddiffyg yng nghronfeydd yr UE.

- **Comisiynu Adolygiad o Ddangosyddion Annibynnol:** Mae WEFO yn ymwybodol bod epidemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar rai gweithrediadau. Bu'n rhaid cwtdogi ar y gweithgareddau wyneb yn wyneb a ddarperir gyda chyfranogwyr CGE er enghraifft er bod llawer o weithrediadau wedi mynd ati fwy a mwy i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gweithgareddau o bell/ar-lein. Mae gweithgareddau cydweithredu ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi wedi'u hamharu hefyd. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith lawn Covid-19, mae WEFO yn cynllunio adolygiad annibynnol o berfformiad dangosyddion yn ystod 2021 er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gyflawni yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o addasiadau i'r rhaglen.

12. Diolchodd y Cadeirydd i Peter am ei gyflwyniad a gofynnodd a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau/gwestiynau. Codwyd yr elfennau canlynol:

- Gan fod y Prif Weinidog wedi tynnu sylw at newid hinsawdd a'i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth newydd, pa bwyslais sy'n cael ei roi ar yr argyfwng natur a gwarchod ac adfer bioamrywiaeth wrth ddarparu rhaglenni a pha fesurau sydd ar waith ar gyfer canlyniadau cadarnhaol o ran natur. Yn ogystal, gan y bydd gwarchod natur yn ymddangos yn fwy amlwg, a fydd WEFO yn ceisio gwella ei phrosesau er mwyn sicrhau y gwneir y gorau o fanteision y rhaglenni hyn a ffrydiau ariannu posibl yn y dyfodol. Mae WEFO yn cydnabod y bydd tensiwn bob amser rhwng datblygu economaidd a gwarchod yr amgylchedd, fodd

bynnag, mae WEFO bob amser wedi ymgorffori Themâu Trawsbynciol (TTau) ac mae ganddi dîm ymroddedig ar waith i hyrwyddo'r TTau i gynnwys Datblygu Cynaliadwy. Mae'r holl weithrediadau wedi ymrwymo i ddarparu dangosyddion TTau a nod Tîm TTau WEFO yw gwrthio gweithrediadau y tu hwnt i ofynion cydymffurfio er mwyn sicrhau'r manteision amgylcheddol mwyaf posibl. Dywedodd WEFO ei bod yn fodlon trafod y materion hyn ymhellach er mwyn mynd i'r afael â'r ffyrdd y gellir manteisio i'r eithaf ar y manteision yn y dyfodol.

- Y gofyniad am ymarfer mapio ar gyfer mynd i'r afael ag amserlenni ar gyfer gweithrediadau sy'n dod i ben yn y rhaglenni presennol ac alinio â'r hyn a fydd yn ffrydiau ariannu posibl yn y dyfodol ar gyfer gweithgarwch tebyg/ mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth h.y. cronfeydd ledled y DU e.e. Cronfa Adfywio Cymunedol/ Y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae llawer o weithrediadau wedi'u hymestyn tan fis Mehefin 2023, fodd bynnag, bydd rhai yn dod i ben yn ystod 2022. Roedd WEFO yn cydnabod bod hwn yn faes sensitif iawn gan gadarnhau bod yr effaith ar unigolion, busnesau a'r Trydydd Sector yn bryder y mae WEFO yn mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd er mwyn helpu i lunio polisiau yn Llywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weinidog wedi nodi'n glir bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu defnydd Llywodraeth y DU o Fil y Farchnad Fewnol i gymhwyso cyllid yn uniongyrchol yng Nghymru. Mae WEFO yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni hyd at ddiwedd y rhaglenni presennol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl.
- Cafwyd un pwynt cyffredinol ynghylch cau gweithrediadau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â staff sy'n terfynu contractau'n gynnar a bod hynny felly'n effeithio ar allu buddiolwyr/sefydliadau i gau gweithrediadau mewn modd sy'n cydymffurfio. I rai buddiolwyr/sefydliadau, gall fod yn anodd argyhoeddi aelodau staff uwch i ymrwymo adnoddau ar gyfer cau. Felly, gallai fod yn ddoeth i WEFO gysylltu â phob buddiolwr gan dynnu sylw at bwysigrwydd cau a'r angen i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael/yn cael eu cyfeirio at y cylch gwaith hwn. Mae WEFO eisoes wedi ystyried y materion hyn ac mae sgysiau wedi digwydd gyda gweithrediadau unigol. Fe wnaeth cynrychiolydd y CE gydnabod yr heriau sy'n wynebu buddiolwyr/sefydliadau ond pwysleisiodd bwysigrwydd cadw aelodau staff allweddol er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'n cael eu cau mewn modd sy'n cydymffurfio. Mae perygl o danseilio'r gwaith da a wnaed hyd yma os nad yw rhaglenni'n cael eu cau mewn modd sy'n cydymffurfio. Mae Llywodraeth y DU wedi gofyn i'r CE ddarparu seminarau ar y broses o gau gweithrediadau. Mae seminar yn y DU i drafod y broses o gau gweithrediadau yn debygol unwaith y bydd y canllawiau cau wedi'u cwblhau a byddant yn cael eu trefnu gan gydweithwyr yn Llywodraeth y DU ac yn cael eu mynychu gan swyddogion desg y CE er mwyn helpu i gynghori ar y gofynion sy'n gysylltiedig â chau gweithrediadau.
- Mae angen rhoi gwybod i Weinidogion newydd am rôl/effaith y Trydydd Sector wrth ddarparu gweithgarwch drwy weithrediadau a gefnogir drwy'r Cronfeydd Strwythurol. Mae angen i'r Trydydd Sector fod yn rhan o drafodaethau technegol ynghylch y ffordd y gall buddiolwyr/sefydliadau wneud y mwyaf o gyllidebau a darpariaeth a sicrhau bod gweithrediadau'n cael eu cau'n effeithiol ac mewn modd sy'n cydymffurfio. Yn ogystal, mae'r Trydydd Sector yn cydnabod hefyd yr heriau y bydd buddiolwyr/sefydliadau yn eu hwynebu o ran cau gweithrediadau, yn enwedig gan fod llenwi swyddi gwag yn mynd yn fwy anodd. Diolchodd WEFO i sefydliadau'r Trydydd Sector am eu cefnogaeth barhaus.

EITEM 4: Cyflwyniadau a chymeradwyo Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AGBau):

13. Gwahoddwyd Richard Self, Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO (YMG) i roi cyflwyniad ar yr AGBau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol.

- Mae'r AGBau drafft yn manylu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Rheoli i weithredu'r Rhaglenni yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol - mae adroddiadau eleni yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Rhagfyr 2020.
- Mae'n ofynnol i WEFO gyflwyno'r adroddiad ar gyfer AGBau y Cronfeydd Strwythurol i'r Comisiwn Ewropeaidd erbyn 31 Mai 2021, yn dilyn cymeradwyaeth y PMRh.
- Oherwydd materion yn ymwneud ag adnoddau yn y CDG, nid oes modd cyflwyno AGBau y CDG i PMRh, felly caiff ei gyflwyno drwy weithdrefn ysgrifenedig sy'n gwneud defnydd llawn o'r dyddiad cau estynedig, sef 30 Mehefin 2021.
- Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar y fersiwn 'Crynodeb Dinasyddion' o'r AGBau (anfonwyd dau ohonynt at yr Aelodau yn flaenorol) ac er nad oedd arnynt angen cymeradwyaeth y PMRh, mae angen mynd ati yr un fath i'w cyflwyno ochr yn ochr â'r prif adroddiadau erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno.
- Fel yn achos adroddiadau'r llynedd, mae'n ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau 'ysgafn' eleni, yn bennaf gan gwmpasu cynnydd cyffredinol y Rhaglenni ac adrodd yn erbyn data ariannol a dangosyddion. Ni fydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno tan y bydd yr adroddiad gweithredu terfynol yn cael ei gwblhau yn 2025.
- Darparwyd crynodeb ar Strwythur a Chynnwys yr Adroddiad.
- Roedd 2020 yn flwyddyn ddigynsail oherwydd COVID-19, ac nid yw ei effeithiau'n cael eu cynnwys yn nata AGB 2020 sydd yn 18 mis oed. Mae pob un o'r pedwar AGB yn nodi y byddwn eleni yn comisiynu dadansoddiad annibynnol ar ddangosyddion rhaglenni er mwyn canfod a oes angen addasu rhaglenni ac i edrych ar yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ac y gallai barhau i'w chael ar gyflawni targedau rhaglenni.
- Cytunodd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar fân addasiadau i'r ddwy Raglen ERDF yng nghyfarfod PMRh mis Medi. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar symud arian o gwmpas i gefnogi amcanion allweddol y rhaglenni.
- Mae AGBau ERDF yn nodi, mewn ymateb i Covid-19, y cynhaliwyd rhag-asesiad er mwyn canfod y bwlch yn y farchnad fel y gall busnesau gael gafael ar gyllid ad-daladwy yn y ddwy Raglen ERDF. Cynyddwyd lefel y cyllid i Gronfa Busnes Cymru er mwyn helpu busnesau yn benodol i ymdopi ag effaith ddigynsail Covid-19. Cyflawnwyd hyn drwy gymhwysu'r hyblygrwydd a gyflwynwyd gan yr UE o ganlyniad i'r pandemig drwy ei Fenter Buddsoddi yn yr Ymateb i'r Coronafeirws. Yn ogystal â hyn, dyfarnwyd cyllid newydd hefyd i'r gweithrediadau 'asgwrn cefn' strategol ar gyfer cymorth busnes i gynorthwyo busnesau yn ystod yr argyfwng.
- Mae AGBau CGE yn adrodd bod pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar weithrediadau, yn enwedig o ran darparu gweithgareddau wyneb yn wyneb, ond bod llawer o weithrediadau'n canfod atebion i ddarparu gweithgareddau o bell/ ar-lein.
- Roedd y pandemig yn ergyd sylweddol i'r farchnad lafur. Cafwyd effeithiau negyddol clir ar ddangosyddion marchnad fel swyddi gwag a phryderon sylweddol am yr effaith anghymesur ar ieuenctid. Fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau o gyflawni yn ystod y pandemig, roedd portffolio CGE yn parhau i fod yn berthnasol iawn i'r heriau a wynebwyd.
- Aethpwyd ati i gyflwyno Addasiadau'r Rhaglen i'r CE ym mis Rhagfyr 2020 i ailddyrannu arian CGE o Flaenoriaethau 1, 2, 3 a 5 y ddwy Raglen CGE a'u rhoi mewn Echel

Blaenoriaeth 6 newydd (Rheoli Covid drwy Gapasiti) yn y ddwy Raglen CGE, mewn ymateb i Fenter Buddsoddi yr UE yn yr Ymateb i'r Coronafeirws.

- Roedd llawer o'r manylion a ddarparwyd yn yr adroddiadau a'r sleidiau cyflwyno yn cwmpasu/cynnwys: Gweithgarwch gwerthuso-ERDF a CGE; Perfformiad y Rhaglenni-ERDF a CGE; Perfformiad Dangosyddion ERDF a CGE y Rhaglenni.
- I grynhoi, mae'r AGBau yn dangos y canlynol:
 - Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud ar draws pob rhaglen yn ystod 2020, o safbwynt cynnydd ariannol ac o ran dangosyddion perfformiad.
 - Mae Covid-19 wedi effeithio ar y broses weithredu – nid yw effaith hirdymor Covid-19 wedi'i gynnwys yn y data ar gyfer yr AGBau eleni ond byddwn yn edrych ar hyn fel rhan o'r adolygiad allanol o ddangosyddion sy'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd.
 - Gwnaed addasiadau i bob un o'r pedair rhaglen, gan gynnwys y mân addasiadau i'r ddwy Raglen ERDF a'r broses o greu'r Blaenoriaethau newydd ar gyfer "rheoli achosion Covid" dan y Rhaglenni CGE.

EITEM 5: Sesiwn Holi ac Ateb a thrafodaeth ar AGBau:

14. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau.

15. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau gymeradwyo'r AGBau canlynol:

- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) **WPMC(21)182**
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Dwyrain Cymru) **WPMC(21)183**
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) **WPMC(21)184**
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Dwyrain Cymru) **WPMC(21)185**

16. Cymeradwyd yr holl AGBau heb unrhyw wrthwynebiadau.

EITEM 6: Unrhyw Fater Arall

17. Yn dilyn sylwadau cynharach ynghylch cau gweithrediadau, tynnodd yr Aelodau sylw at effaith/symbyliad cau gweithrediadau a cholli arbenigedd yng Nghymru. Mae llawer o raglenni rhagorol sy'n haeddu buddsoddiad pellach mewn cyllid yn y dyfodol, felly sut bydd WEFO/ LIC/ Awdurdodau Lleol yn casglu'r hyn sydd wedi gweithio a gweithio'n dda er mwyn sicrhau bod yr arferion hyn yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Pwysleisiodd WEFO bwysigrwydd gwerthuso gweithrediadau'n ffurfiol er mwyn cofnodi'r gwersi a ddysgwyd ac arferion da a phwysigrwydd y Grŵp Llywio Allanol sydd wedi edrych ar y gwaith hwn. Roedd cefnogaeth i Lywodraeth Cymru fynd ati i arwain er bod Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud y penderfyniad ar sut caiff yr arian newydd ei wario. Ar hyn o bryd, mae'r syniad o geisio ailsefydlu'r Gweithgor Gweinidogol yn cael ei ystyried fel y gall ailddechrau ar ei waith o safbwynt ariannu yn y dyfodol, rhanbartholi, symleiddio rheolau a phrosesau, pontio ac ati; ac y bydd yn ystyried argymhellion y Grŵp Llywio Allanol hefyd. Nodwyd pwysigrwydd edrych ar yr hyn sydd wedi'i wneud yn dda dros yr 20 mlynedd diwethaf a'i gadw gan y gall rhywbeth tebyg godi eto yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen hanfodol am benderfyniad cyflym gan y bydd y doniau yn cael eu colli unwaith y bydd y rhaglenni'n diflannu.

18. Mae dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn, fodd bynnag bydd angen eu cadarnhau ac maen nhw'n agored i newid:

10 Medi 2021

2 Rhagfyr 2021

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am fynychu ac am eu cyfraniadau i'r trafodaethau.

Ysgrifenyddiaeth y PMRh

Mehefin 2021

ATODIAD A

CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020 CYMRU

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI

Dydd Iau 20 Mai 2021
Cyfarfod rhithwir drwy Microsoft Teams

Cadeirydd – Sian Price

Aelodau a enwebwyd ar sail gynrychioliadol, gan bartneriaid a chyrrff statudol:

Tom Whyatt	Busnes a Menter (Diwydiant Cymru)
Lowri Gwilym	Dirprwy i'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (UCA)
Matthew Brown	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Scott Morgan	Llywodraeth Cymru
Rhian Jardine	Cyfoeth Naturiol Cymru
Huw Evans	Dirprwy i'r Athro Steve Wilkes, Prifysgol Abertawe
Nick Fenwick	Dirprwy i Charlotte Priddy FUW
Nigel Hollett	Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Janis Richards	Dirprwy i Paul Byard, Make UK
Arfon Williams	RSPB
Matthew Bennett	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Lowri Owain	LEADER
David Blaney	CCAUC

Aelodau a ddewiswyd drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus:

Beth Winkley

Grahame Guilford

Cynghorwyr:

Guus Muijzers	Y Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Rhanbarthau
Evert Velkamp	Y Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth
Marek Beran	Comisiwn Ewropeaidd, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth

Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:

Peter Ryland	Prif Weithredwr, WEFO
Ryan Doyle	Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Economi Wledig a Deddfwriaeth
Sue Price	Pennaeth Rhaglenni EDRF, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rhaglenni CGE, WEFO
Richard Self	Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso, WEFO
James Burgess	Dirprwy Bennaeth Awdurdod Rheoli'r RhDG
Rhydwen Mitchell	Ysgrifenyddiaeth
Cath Cleaton	Ysgrifenyddiaeth
Michelle Rolls	Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau:

Huw Bryer	Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn	CLILC
Martin Mansfield	TUC CYMRU
Yr Athro Steve Wilkes	Prifysgol Abertawe
Alison Parken	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Iestyn Davies	Colegau Cymru
Y Cynghorydd Rob Stewart	CLILC

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (CDG) 2014-2020

1. Diweddariad Cyffredinol ar y Rhaglen CDG

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd o ran darparu rhaglenni. Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid gynllunio o £1:€1.176. Ym mis Hydref 2021, mae ymrwymiad lefel prosiect yn £765m, sy'n cynrychioli ymrwymiad o 91% mewn arian, cyfanswm gwerth y rhaglen yw £838,293,986. Mae'r Rhaglen wedi ymrwymo'n llwyr ar lefel polisi. At ei gilydd, mae gwariant y Rhaglen hyd yma wedi cynyddu dros £47m ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf i £559m (£392m EAFRD), o'r £267m hwn yn ymwneud â thaliadau trosglwyddo Colofn I.

Cyhoeddir Data Monitro ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

£ Miliwn					
Dyraniad ¹		Ymrwymiad ²		Gwariant ²	
CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD	CYFANSWM	EAFRD
838	559	765 (91%)	523 (94%)	559 (67%)	392 (70%)

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid gynllunio o £1:€1.176

² Mae canrannau'n dangos cyfran y dyraniad

2. Diwygio'r Rhaglen (Addasu)

Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y pedwerydd Gwelliant i'r Rhaglen ar 16 Mawrth 2021.

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog i ymestyn contractau Glastir am 2 flynedd arall, mae swyddogion wedi dechrau gweithio ar 5ed addasiad i'r rhaglen. Fel rhan o hyn, gwnaethom ymgysylltu'n agos â'r Comisiwn Ewropeaidd a dosbarthu'r cynigion drwy weithdrefn ysgrifenedig ar 10 Tachwedd i aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod Rheoli wedi adolygu'r broses o drosi cymeradwyaethau i wario yn yr hyn a fu'n 12 mis ansicr a heriol iawn gyda rhai prosiectau'n cael anawsterau yn ystod y 18 mis diwethaf oherwydd Covid a materion yn ymwneud â'r Gadwyn Gyflenwi gan arwain at effaith gysylltiedig ar gyflenwi a gwario. Mae'r dadansoddiad hwn wedi nodi arian o fesurau cyfalaf (Mesur 4, 6 ac 8.6) yn ogystal â Mesur 16 (cydweithredu) y gellir ei ailgyfeirio i feysydd eraill.

Bwriedir defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gynnig contractau Glastir Uwch a ddechreuodd yn 2017 a 2018, contractau cyfnod byrrach newydd a fydd yn rhedeg hyd at 31 Rhag 2023. Bydd pob contract Glastir presennol arall yn cael cynnig dau estyniad blyneddol i redeg tan 31 Rhag 2023 ac ymestyn gwasanaeth Cyswllt Ffermio, tan fis Mawrth 2023.

3. Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynlluniau

Dyraniad y Cynllun, Ymrwymiad, Gwariant

Y ffigurau isod ar ddiwedd mis Hydref 2021 (nid yw'n cynnwys newidiadau addasu 5).

Scheme	Scheme Allocation	Total Committed to Projects	Total Spend
Cooperation & Supply Chain Development Scheme	£67,474,110	65,614,642	£36,817,694
Co-operative Forest Planning Scheme	£160,280	129,355	£53,834
Enabling Wales's Natural Resources Scheme	£31,000,000	17,798,761	£860,228
European Innovation Partnership	£2,475,000	2,474,680	£1,265,335
Farm & Forestry Infrastructure	£150,000	-	£0
Farm Business Grant Scheme	£25,100,669	22,430,074	£16,987,350
Food Business Investment Scheme	£65,686,721	44,047,155	£34,455,453
Knowledge Transfer & Innovation	£91,290,028	93,759,652	£58,824,303
LEADER	£47,651,971	46,480,799	£32,453,415
Rural Business Advisory Service	£12,433,414	14,322,407	£9,367,686
Rural Business Investment Scheme	£9,167,820	5,711,183	£4,119,497
Rural Community Development Fund	£26,451,572	20,366,746	£17,111,297
Sustainable Management Scheme	£24,383,328	22,927,906	£10,016,129
Sustainable Production Grant	£32,258,895	22,852,362	£15,731,955
Technical Assistance	£37,000,000	38,030,002	£21,052,916
Timber Business Investment Scheme	£8,021,812	5,539,987	£5,137,960
Socio-Economic Total	£480,705,620	422,485,712	£264,255,053
Forest Monitoring and Risk Management Scheme	£486,116	£163,927	£163,927
Glastir Advanced	£154,386,891	£151,162,791	£129,818,227
Glastir Commons	£28,525,094	£28,722,523	£23,342,171
Glastir Entry	£98,603,480	£99,922,830	£91,158,250
Glastir Organics	£26,224,152	£26,212,061	£22,720,766
Glastir Small Grants	£12,816,249	£10,922,180	£8,538,011
Glastir Woodland Creation	£22,480,615	£11,882,377	£7,849,623
Glastir Woodland Management	£959,900	£523,100	£509,400
Glastir Woodland Restoration	£5,003,946	£4,497,951	£3,421,875
Legacy Schemes	£8,101,923	£8,236,936	£6,937,458
Agri-Environment Total	£357,588,366	£342,246,676	£294,459,708
Total	£838,293,986	£764,732,388	£558,714,761

Cynllun Dyraniad y Cynllun Cyfanswm wedi'i Ymrwymo i Brosiectau

Cyfanswm Gwariant

Y Cynllun Datblygu Cydweithrediad a'r Gadwyn Gyflenwi

Y Cynllun Cynllunio Coedwigoedd Cydweithredol

Y Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol Cymru

Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd

Seilwaith Ffermydd a Choediwigoedd

Y Cynllun Grant Busnes Fferm

Y Cynllun Buddsoddi Busnes Bwyd

Trosglwyddo ac Arloesi Gwybodaeth

LEADER

Y Cynllun Cyngori Busnesau Gwledig

Y Cynllun Buddsoddi Busnesau Gwledig

Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy

Cymorth Technegol

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren

Cyfanswm Economaidd-gymdeithasol

Y Cynllun Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risg

Glastir Uwch

Glastir – Tir Comin

Glastir Sylfaenol

Glastir Organig

Glastir Grantiau Bach

Glastir - Creu Coetiroedd

Glastir - Rheoli Coetiroedd

Glastir - Adfer Coetiroedd

Cynlluniau Gwaddol

Cyfanswm Amaeth-amgylchedd

Cyfanswm

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)

Mae'r gwaith o ddarparu'r Cynllun EIP yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus, gan annog ffermwyr i gymryd rhan fel Grwpiau Gweithredol, ar 31 Awst 2021, gyda chyfanswm o 232 o ffermwyr ar draws 46 o Grwpiau Gweithredu Cymeradwy. Dyfarnwyd cyfanswm o £1,799,515.17 rhwng y 46 grŵp, ar gyfartaledd o £39,350 fesul grŵp (uchafswm y cymorth cymwys yw £40k).

Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I)

Mae'r rhaglen KT&i uwch yn parhau i ddarparu cymorth i drawsnewid rhagolygon busnes miloedd o ffermwyr a choedwigwyr. Ar 31 Awst 2021, cofrestrodd cyfanswm o 11,945 o fusnesau gyda

24,906 o unigolion wedi'u cofrestru ac yn ymwneud â'r rhaglen. Mae rhagor o wybodaeth am ddarparu rhaglenni Cyswllt Ffermio ar gael yma.

Gwasanaeth Cyngori Busnesau Gwledig (RBAS)

Mae RBAS yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol i fusnesau cofrestredig Cyswllt Ffermio. Ar 31 Awst 2021, mae cyfanswm o 6,094 o fusnesau wedi elwa ar gymorth busnes a/neu gyngor technegol, wedi'u teilwra i'w hanghenion busnes. Cefnogwyd 3,725 o unigolion drwy ymgysylltu â 1,008 o grwpiau.

Cywain

Prosiect sydd wedi canolbwyntio ar gefnogi busnesau micro a busnesau bach a chanolig newydd a phresennol sy'n dymuno tyfu ac ehangu. Gwerth y cynllun yw £16.6 miliwn a hyd yma mae wedi cefnogi 918 o gyfranogwyr. Mae 810 o gyfranogwyr wedi derbyn hyfforddiant, ar draws 1,092 o ddiwrnodau hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi syrthio i'r diffiniad Micro Busnes.

Prosiect Helix

Mae Prosiect Helix, sy'n cael ei redeg drwy Arloesi Bwyd Cymru (FIW), yn brosiect cymorth arloesi a gweithgynhyrchu bwyd helix triphlyg unigryw, sy'n darparu pecyn cymorth cynhwysfawr i fusnesau bwyd Cymru ac i wneud y mwyaf o'u potensial i fod yn fwy cystadleuol yn y farchnad. Mae'r prosiect yn rhoi cyngor arbenigol i gyfranogwyr i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, datblygu cynnyrch ac arloesi a gwybodaeth dechnegol a gweithredol sy'n ofynnol ar gyfer llwyddiant mewn gweithgynhyrchu bwyd. Mae hwn yn becyn o brosiectau gwerth £28.8m, wedi'i rannu ar draws tri safle yng Nghymru. Mae £13.9 miliwn wedi'i hawlio hyd yma, mae 257 o fentrau wedi cael cymorth, gyda 310 o gyfranogwyr wedi derbyn hyfforddiant ar draws 405 diwrnod hyfforddi. Crëwyd 392 o swyddi.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)

Mae FBIS wedi arwain at dros £161m ers sefydlu buddsoddiadau cyfalaf newydd i Gymru hyd yma ac mae'n parhau i ddenu buddsoddiadau newydd a chyffrous o fewn y sector, i helpu i gynorthwyo a chefnogi'r sector Bwyd-Amaeth.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (RBIS) - Bwyd

Mae hwn yn gynllun buddsoddi cyfalaf ar gyfer gweithgareddau prosesu neu weithgynhyrchu bwyd a diod nad ydynt yn gymwys o dan yr FBIS. Daeth y ffenestr olaf i ben ar 30/4/2021 a chafodd ei ordanysgrifio. Derbyniwyd 25 Datganiad o Ddiddordeb gyda chyfanswm o £2.7m o fuddsoddiad cyfalaf a grant o £781k y gofynnwyd amdano. Gwrthodwyd 11 o EOIs ac mae 14 wedi mynd ymlaen i werthuso'n llawn (sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd).

Mae hwn wedi bod yn gynllun pwysig i gefnogi'r gwaith o ddatblygu busnesau bach, y mae llawer ohonynt yn arallgyfeirio gweithgareddau ar y fferm.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS)

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu 4 rownd lwyddiannus o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren dros y 5 mlynedd diwethaf, sydd wedi galluogi perchnogion coedwigoedd preifat, awdurdodau lleol neu berchnogion coedwigoedd eraill yn y sector cyhoeddus i wneud buddsoddiadau cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd Cymru drwy weithgareddau rheoli coetiroedd, cynaeafu pren a/neu brosesu pren. Daeth y 5ed rownd i ben ar 9 Ebrill 2021, ac ehangodd ei gylch gwaith i gynnwys buddsoddi mewn prosiectau sy'n delio â choed sydd wedi'u heintio â Chalara, a/neu gynyddu gallu meithrinfa goed. Arweiniodd at wahodd 38 o EOIs llwyddiannus i gyflwyno ceisiadau llawn.

Grant Busnesau Fferm (FBG)

Mae Grant Busnes Fferm yn darparu grantiau o £3,000 i £12,000, sy'n darparu uchafswm cyfraniad o 40% ac yn caniatáu i ffermwyr wneud buddsoddiadau pwysig yn eu busnesau i gefnogi effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella cynhyrchiant a chynaliadwydd ar y fferm. Mae'r grant yn darparu cyllid tuag at gost ystod eang o offer, o drin systemau a thechnoleg ar gyfer ffermio manwl gywir, i offer ar gyfer defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Wrth i'r diwydiant ddechrau ar gyfnod tyngedfennol o newid, mae angen i fusnesau fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad a wnânt yn eu cefnogi i ddod yn fwy cynaliadwy, ffyniannus a gwydn ar gyfer y dyfodol.

Agorodd wythfed rownd y FBG ar 1 Mawrth 2021 a daeth i ben ar 9 Ebrill. Cyflwynwyd 755 o Ddatganiadau o Ddiddordeb gwerth £3.98m o gyllideb o £5m. Cynigiwyd 701 o gontractau a derbyniodd 571 o gwsmeriaid y cynnig. Y dyddiad cau ar gyfer hawlio ar gyfer ffenestr FBG 8 oedd 23 Medi. Derbyniwyd 350 o hawliadau gwerth £1.745m. Hyd yma mae 166 o hawliadau wedi'u prosesu i'w talu.

Agorodd nawfed ffenestr FBG ar 1 Medi 2021 a daeth i ben ar 1 Hydref. Y gyllideb ar gyfer y cylch hwn yw £2m.

Derbyniwyd 413 o EOIs ac mae contractau gwerth £1.8m wedi'u cynnig i 378 o gwsmeriaid y prynhawn yma gyda'r terfynau amser canlynol:

Dyddiad Cynnig Contract: 12/10/2021

Dyddiad cau ar gyfer Derbyn y Contract: 11/11/2021

Dyddiad Cau'r Hawliad: 08/02/2022

Oherwydd lefel uchel o alw am eitemau penodol sydd ar gael yn FBG, yn ogystal â materion cyflenwi oherwydd cyfuniad o Covid-19 a Brexit, efallai y bydd rhai deiliaid contract yn ei chael hi'n anodd cwblhau prynu'r holl eitemau yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i alluogi talu am yr eitemau eraill a brynir. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa gasglu hon ac anogir deiliaid contract sy'n wynebu anawsterau am y rhesymau hyn i gysylltu â ni

gan ddefnyddio eu cyfrifon RPW Ar-lein cyn gynted â phosibl, lle yr ymdrinnir â phob achos yn ôl ei deilyngdod, o ystyried cyfyngiadau'r contract.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - Heb fod yn Amaeth (RBIS- Non Agri)

Mae hwn yn gynllun buddsoddi newydd i gynorthwyo adferiad economaidd Covid-19, mae'r RBIS (Heb fod yn Amaeth) yn talu costau buddsoddiadau cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

- a) arallgyfeirio'r economi wledig,
- b) datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion naturiol,
- c) cynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau gwledig.

Mae'r cynllun yn agored i ficro-fentrau a mentrau bach anamaethyddol sy'n bodoli eisoes ac sy'n dechrau, gan gynnwys ffermwyr neu aelodau o aelwydydd y fferm sy'n arallgyfeirio i weithgareddau anamaethyddol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos bod marchnad hyfyw wedi'i nodi ar gyfer eu cynnyrch ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant.

Uchafswm trothwy grant fesul ymgymeriad ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £50,000, a'r isafswm yw £5,000. Uchafswm y gyfradd grant ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw 40% o gyfanswm y costau cymwys.

Mae dwy ffenestr ymgeisio wedi agor hyd yma ar gyfer y cynllun hwn.

Daeth y ffenestr gyntaf i ben ym mis Mehefin 2021. Derbyniwyd 28 o geisiadau ar gyfer y ffenestr hon. O'r ceisiadau hyn, mae 15 wedi symud ymlaen i wiriadau cam olaf, gyda chyfanswm cais gwerth grant o £0.6m.

Daeth yr ail ffenestr i ben ym mis Awst 2021. Derbyniwyd 31 o geisiadau erbyn y dyddiad cau gyda chyfanswm cais gwerth grant o £0.8m. Nid oedd 8 cais yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun. Mae'r 23 cais sy'n weddill yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yma.

Grantiau Bach Glastir:

Derbyniwyd ceisiadau 2035 am gyfnod Dŵr Grantiau Bach Glastir (GSG) 2020 erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio, sef 31 Mawrth 2021, gwerth dros £1.9m. Hyd yma, mae tua 94% o'r hawliadau wedi'u talu. Rhoddodd RPW estyniadau y gofynnwyd amdanynt gan gwsmeriaid nad oeddent yn gallu cwblhau'r gwaith oherwydd COVID neu dywydd gwlyb. Mae 221 o gontractau estynedig yn parhau heb eu hawlio gwerth £287,308, rhaid i'r cwsmeriaid hyn gwblhau'r gwaith erbyn 31 Rhagfyr 2021.

Daeth y ffenestr EOI Carbon 2021 i ben ar 19 Chwefror 2021. Hyd yma, mae 943 o contractau wedi'u derbyn gwerth £1.2m. Bydd gan y rhai sy'n derbyn eu contractau tan 28 Chwefror 2022 i gwblhau'r gwaith a rhaid iddynt gyflwyno hawliad a ffotograffau geo-dagio erbyn 31 Mawrth 2022.

Daeth ffenestr EOI Tirwedd a Phryfed Peillio 2021 i ben ar 25 Mehefin 2021. Hyd yma, mae 676 o contractau wedi'u derbyn gwerth £1.08m. Bydd gan y rhai sy'n derbyn eu contractau tan 15 Mawrth 2022 i gwblhau'r gwaith a rhaid iddynt gyflwyno hawliad a ffotograffau geo-dagio erbyn 31 Mawrth 2022.

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (CCA)

Mae grantiau'n amrywio o £12,000 i £50,000 fel uchafswm cyfraniad o 40% at gostau prosiect. Mae'r eitemau a gefnogir yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, offer storio a rheoli slyri wedi'u gorchuddio a heb eu gorchuddio. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fwy o ffermwyr arwain y ffordd o ran mynd i'r afael ag amaeth-lygredd er mwyn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Mae lefel y diddordeb yn y rhan fwyaf o gylchoedd y CCA wedi dangos bod ffermwyr yn barod i fuddsoddi yn eu busnesau i ddod yn fwy cynaliadwy, ffyniannus a gwydn.

Mae 296 o hawliadau am ffenestri CCA 1-3 wedi'u prosesu i'w talu, gwerth dros £12.6m. Dim ond 5 hawliad sy'n dal heb eu talu. Derbyniwyd 254 o hawliadau ar gyfer ffenestri CCA 4 - 6, ac mae 80% ohonynt wedi'u prosesu i'w talu, gwerth £2.2m. Gwneir pob ymdrech i brosesu'r hawliadau sy'n weddill cyn gynted â phosibl. Mae hawliadau CCA yn aml yn gymhleth ac mae angen rhagor o wybodaeth gan yr hawliwr neu gwblhau gwiriad gweinyddol yn y fan a'r lle cyn y gellir talu.

Agorodd seithfed rownd y CCA ar 1 Chwefror 2021 a daeth i ben ar 12 Mawrth. Cyflwynwyd 601 o EOIs gyda gwerth o £20,766,099. Yn dilyn dewis, cyflwynwyd 194 o geisiadau contract gwerthuso CCA gyda gwerth o £6.3m. Wrth gyflwyno'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, roedd gan y cylch hwn o'r CCA ffocws cryf ar ddarparu cymorth i alluogi ffermwyr i fodloni gofynion storio'r Rheoliadau erbyn y dyddiad cau, sef mis Awst 2024, lle mai dim ond y capasiti storio ychwanegol sy'n angenrheidiol i fodloni'r gofynion storio y gellid ei gefnogi yn awr ac nid system gwbl newydd, waeth beth fo'r capasiti storio presennol, fel yr arferai fod yn ofynnol.

Fel yn achos FBG, mae materion yn ymwneud â chyflenwi a chostau cynyddol deunyddiau a llafur a gall rhai deiliaid contract CCA ei chael yn anodd cwblhau'r gwaith o brynu a gosod pob eitem yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i alluogi talu am yr eitemau eraill a brynir. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa gasglu hon ac anogir deiliaid contract sy'n wynebu anawsterau am y rhesymau hyn i gysylltu â ni gan ddefnyddio eu cyfrifon RPW Ar-lein cyn gynted â phosibl, lle yr ymdrinnir â phob achos yn ôl ei deilyngdod, o ystyried cyfyngiadau'r contract.

Grant Busnes Fferm – Y Cynllun Gorchuddio Iardiau (FBG-YC)

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun newydd, yn seiliedig ar y FBG, i gefnogi ffermwyr i orchuddio'r iardiau presennol er mwyn lleihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i storfeydd slyri.

Nod y cynllun Grant Busnes Fferm – Y Cynllun Gorchuddio Iardiau yw gwella'r seilwaith presennol ar y fferm, gan leihau eu costau cynhyrchu yn y pen draw. Bydd y cynllun yn cefnogi'r gwaith o orchuddio mannau bwydo a chasglu da byw presennol a ddatgelwyd yn flaenorol, mannau storio tail, yn ogystal â storfeydd slyri a silwair presennol. Bydd y cynllun yn seiliedig ar gost safonol fesul metr o do wedi'i osod. Ar 4 Tachwedd, cyflwynwyd gweminar trosglwyddo gwybodaeth i 1000 o gyfranogwyr lle nododd arbenigwr a wahoddwyd a swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyswllt Ffermio y manylion am y cynllun FBG-YC. Agorodd ffenestr EOI FBG-YC ar 9 Tachwedd a daeth i ben ar 18 Rhagfyr, gyda chyllideb rownd gyntaf o £1.5m. Derbyniwyd 583 o EOIs. Cynigiwyd 149 o gontractau a derbyniodd 137 y cynnig o gontract.

Caeodd ail rownd FBG-YC ar 25 Mehefin gyda chyllideb o £2m, gyda'r swm heb ei neilltuo o £152,062 o'r rownd gyntaf wedi'i ychwanegu at y gyllideb o £2m. Cynigiwyd contractau i 250 o fusnesau fferm. Mae 206 wedi derbyn cynnig contract gwerth £1.97m. Mae gan 9 arall tan 12 Hydref i dderbyn y cynnig. Gwerth y contractau hyn yw £0.9m.

Fel gyda FBG a SPG, mae materion yn ymwneud â chyflenwi a chostau cynyddol deunyddiau a llafur a gall rhai deiliaid contract FBG-YC ei chael yn anodd cwblhau'r gwaith o brynu a gosod pob eitem yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i alluogi talu am yr eitemau eraill a brynir. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa gasglu hon ac anogir deiliaid contract sy'n wynebu anawsterau am y rhesymau hyn i gysylltu â ni gan ddefnyddio eu cyfrifon RPW Ar-lein cyn gynted â phosibl, lle yr ymdrinnir â phob achos yn ôl ei deilyngdod, o ystyried cyfyngiadau'r contract.

Mesurau Amaeth-Amgylcheddol

Glastir Sylfaenol

Cyrhaeddodd y contractau Glastir Sylfaenol annibynnol olaf eu cyfnod contract pum mlynedd ym mis Rhagfyr 2019, ar ôl dechrau yn 2015. Dim ond pan fo contractau Glastir Sylfaenol yn sail i gontractau Glastir Uwch y gall eu hymrwymadau barhau y tu hwnt i'w cyfnod contract cychwynnol, pan fydd y prif gontract Glastir Uwch yn cael ei adnewyddu neu ei ymestyn.

Creu Coetir Glastir (GWC)

Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus o dan ffenestr 8 GWC tan 31 Mawrth 2022 i'w cwblhau a hyd at 30 Ebrill 2022 i hawlio eu prosiectau.

Mae gan ffenestr 9 GWC gyllideb o £8m. Gofynnwyd i gwsmeriaid ddewis blwyddyn hawlio naill ai 2021/22 neu 2022/23. Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer cyflwyno cynlluniau ar gyfer GWC 9. Fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn gadael digon o amser i ganiatáu i'r broses ddilysu gael ei chynnal er mwyn i'r coetir newydd gael ei sefydlu cyn y dyddiad hawlio terfynol. Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus o dan Ffenestr 9 GWC sydd wedi dewis cael eu hariannu o dan hawliad blwyddyn 1 tan 31 Mawrth 2022 i'w cwblhau a hyd at 30 Ebrill 2022 i hawlio eu prosiectau. Mae gan ymgeiswyr sydd wedi dewis cael eu hariannu o dan hawliad blwyddyn 2 tan 31 Mawrth 2023 i'w cwblhau a hyd at 30 Ebrill 2023 i hawlio eu prosiectau.

Mae gan ffenestr 10 GWC gyllideb o £9m. Daeth y ffenestr mynegi diddordeb i ben ar 15 Ionawr 2021. Derbyniwyd 200 o ddatganiadau o ddiddordeb gyda gwerth gwaith cyfalaf amcangyfrifedig o £13m. Bydd y broses a ddilynir yr un fath â ffenestr 9, a bydd gan gwsmeriaid tan 31 Mawrth 2023 i gwblhau eu prosiectau.

Agorwyd ffenestr 11 GWC ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ar 30 Medi 2021 a bydd yn cau hanner nos 28 Hydref 2021 ac mae ar gael i reolwyr tir a fydd yn gallu cwblhau'r holl waith cyfalaf a phlannu erbyn 31 Mawrth 2023.

Fel y nodwyd yn dilyn yr adroddiad Coed a Phren aeth at wraidd y mater yn ddiweddar, mae'r ffenestr hon yn cael ei lansio i sicrhau bod y gyllideb lawn a ddyrennir i greu coetiroedd o dan y cynllun Taliad Datblygu Gwledig yn cael ei dyrannu. Mae'r ffenestr hon yn cael ei rhedeg o dan reolau presennol y Cynllun Datblygu Gwledig, felly rydym wedi gwneud cyn lleied â phosibl o newidiadau i reolau a chanllawiau'r cynllun. Bydd prosiectau sydd â chyfanswm gwerth o £5.5 miliwn yn cael eu dewis drwy'r ffenestr hon.

Bydd angen i ymgeiswyr benderfynu a ddylid gwneud cais i'r ffenestr hon, neu'r cynllun Peilot Cynllunio Creu Coetiroedd. Rydym wedi argymhell dewis y cynllun cynllunio os nad ydych yn hyderus y gallwch gadw at y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r holl blannu ar 31 Mawrth 2023. Ni allwch gymryd rhan yn ffenestr 11 Creu Coetir Glastir a'r cynllun peilot cynllunio ar gyfer yr un prosiect. Os bydd perchennog tir yn gwneud cais am y ddau gynllun, bydd y cais i ffenestr 11 Creu Coetir Glastir yn cael ei ystyried yn gyntaf. Os byddant yn llwyddiannus yn ffenestr 11 Creu Coetir Glastir ni fyddant yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot

Adfer Coetir Glastir (GWR)

Agorodd wythfed ffenestr EOI GWR ar 16 Mawrth 2020 a daeth i ben ar 24 Ebrill, gyda chyllideb o £2m. Mae gan ymgeiswyr llwyddiannus o dan GWR 8 sydd wedi dewis cael eu hariannu o dan hawliad blwyddyn 1 tan 31 Mawrth 2022 i'w cwblhau a hyd at 30 Ebrill 2022 i hawlio eu prosiectau. Mae gan ymgeiswyr sydd wedi dewis cael eu hariannu o dan y flwyddyn hawlio 2 tan 31 Mawrth 2023 i'w cwblhau a hyd at 30 Ebrill 2023 i hawlio eu prosiect.

Agorodd nawfed ffenestr EOI GWR ar 18 Mai 2021 a daeth i ben ar 25 Mehefin 2021, gyda chyllideb o £1m. Rhaid cwblhau'r holl waith cyfalaf a phlannu erbyn 31 Mawrth 2023

Glastir Uwch

Mae deiliaid contract Glastir Uwch y disgwylir i'w contract 5 mlynedd cychwynnol ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 wedi cael cynnig adnewyddiad, tra bod y rhai y mae eu contract wedi'i adnewyddu o'r blaen wedi cael cynnig estyniad, tan 31 Rhagfyr 2021. Mae RPW wedi cyhoeddi 1228 o gynigion contract gwerth £17.3m, ac mae 1110 ohonynt wedi'u derbyn gwerth £16.7m. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i gynnig rhagor o adnewyddu contractau ac estyniadau i gymryd contractau Uwch cymwys presennol hyd at 31 Rhagfyr 2023, fel rhan o drefniadau trosiannol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Ceisir

cymeradwyaeth i adnewyddu ac ymestyn contractau hyd at 2023 drwy bumed addasiad o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Glastir - Tir Comin

Cynigiwyd estyniad i 132 o ddeiliaid contract Glastir - Tir Comin yr oedd eu contract presennol i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020 tan 31 Rhagfyr 2021. Derbyniodd 131 y cynnig. Mae'r contractau estynedig yn werth £4m. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i gynnig estyniadau pellach i gontractau Tir Comin cymwys presennol, hyd at 31 Rhagfyr 2023, fel rhan o drefniadau trosiannol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Ceisir cymeradwyaeth i ymestyn contractau hyd at 2023 drwy bumed addasiad o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Glastir Organig

Cynigiwyd estyniad i 497 o gontractau Glastir Organig, gyda gwerth o £3.36m, yr oedd eu contractau presennol i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, tan 31 Rhagfyr 2021. Derbyniodd 479 y cynnig gyda'r contractau estynedig gwerth £3.27m.

I'w nodi: Gwrthododd 24 o ddeiliaid contract neu ni wnaethant ymateb i'w cynnig i ymestyn contractau. Roedd 21 o ddeiliaid contract eraill na chawsant gynnig estyniad oherwydd bod eu contract yn dod i ben yn naturiol ar 31 Rhagfyr 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i gynnig estyniadau contract pellach i gymryd contractau Organig cymwys presennol hyd at 31 Rhagfyr 2023, fel rhan o drefniadau trosiannol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Bydd pob un o'r 497 o gontractau Glastir Organig yn cael cynnig dau estyniad blynyddol pellach i redeg tan 31 Rhag 2023 gyda gwerth o £6.98M. Ceisir cymeradwyaeth i ymestyn contractau hyd at 2023 drwy bumed addasiad o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Cynlluniau Cydweithredu

Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)

Diben yr SMS yw cefnogi prosiectau ar raddfa tirwedd cydweithredol sy'n darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i wella gwytnwch ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau manteision i fusnesau fferm a iechyd a lles cymunedau gwledig. Mae prosiectau SMS yn cymryd camau i wella bioamrywiaeth; gwella seilwaith gwyrdd; cynnal gwell rheolaeth ar dir a dŵr ac yn bwysig, hwyluso'r gwaith o addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd ar raddfa tirwedd.

Mae cydweithrediadau SMS yn cynnwys ffermwyr a phorwyr sydd wedi gweld y manteision y gall cydweithio eu cynnig a chael eu hysbrydoli i weithio gyda dulliau newydd a thraddodiadol. Mae prosiectau'n cynnwys partneriaethau a chydweithrediadau ar lefel leol a graddfa tirwedd sy'n cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i wella

gwytnwch ein hecosystemau. Mae galluogi cydweithio ar y raddfa gywir (boed y safle hwnnw, y dirwedd ranbarthol, y dalgylch neu'r ecosystem honno) a'r lleoliadau cywir yn hanfodol i fynd i'r afael â materion a sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

Rhwng nawr a diwedd y cyfnod cyflawni, Mehefin 2023, rydym yn disgwyl gweld canlyniadau clir ar gyfer mwy o storio carbon, rheoli perygl llifogydd yn well, iechyd pridd, ansawdd dŵr trwy brosiectau rheoli dalgylchoedd a chynnydd mewn plannu coed sy'n cefnogi'r ymrwymadau i'r goedwig genedlaethol.

Yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, rydym hefyd yn gweld canlyniadau ar gyfer datblygu sgiliau, creu swyddi, arallgyfeirio busnesau a manteision cymunedol. Mae nifer o'r prosiectau bellach yn ystyried ac yn canolbwyntio ar fanteision iechyd a lles y gwaith y maent yn ei wneud.

Mae'r cynllun hwn wedi ymrwymo £23m o gyllid y CDG hyd yma drwy bum ffenestr EOI a agorwyd yn ystod 2016 - 2019. Mae cyfanswm o 50 o brosiectau

Agorodd y pumed ffenestr SMS ddiweddaraf ar 21 Mai 2019 – 8 Awst 2019 gyda dyraniad o £3m ar gael. Cyflwynwyd 45 EOI gyda chais o dros £21M, dewiswyd 8 EOI ac anfonwyd hysbysiadau penderfyniadau ar 8 Hydref 2019 neu tua'r dyddiad hynny. Cyfarfu pob un o'r 8 noddwr prosiect â'r dyddiad cau, sef 8 Ebrill 2020, i gyflwyno cais llawn. Daeth y ceisiadau llawn i mewn ar ddechrau pandemig Covid-19. Ar hyn o bryd mae 1 prosiect yn dal i gael ei werthuso dros y 5 ffenestr a 42 wedi'u cymeradwyo a'u bod yn weithredol gyda 7 wedi'u cwblhau.

Symudodd y gwerthusiad SMS i'w ail gam ar ddechrau 2021 gyda cyfweiliadau'n cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid a gweithredu'r model theori newid a nodir yn y dogfennau cychwynnol. Bydd y cam cyntaf yn cael ei gyhoeddi'n fuan ac mae'r ail gam bellach ar y gweill.

Yn ogystal â gwerthuso'r cynllun lefel uchel, mae holl weithgareddau ac allbynnau'r prosiect yn cael eu coladu gan y tîm SMS er mwyn gallu gwneud cysylltiadau â manteision a chanlyniadau ehangach megis gwell bioamrywiaeth ac ecosystemau iach ochr yn ochr â iechyd a lles a chydlyniant cymunedol. Mae'r tîm yn casglu tystiolaeth i lywio polisi yn y dyfodol wrth symud ymlaen. Bydd portffolio o ddeunydd yn cael ei gyhoeddi wrth i'r cyfnod cyntaf o brosiectau ddod i ben ochr yn ochr â digwyddiadau rhithwir i randdeiliaid gan rannu llwyddiant, dysgu a thechnegau monitro a gwerthuso sy'n cael eu rhedeg gan y tîm SMS yn 2021. Bydd gwerthusiadau prosiect unigol ac unrhyw ddogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar-lein i gynulleidfa ehangach ac mae tudalennau ar y we yn cael eu creu i'w rhyddhau ddiwedd 2021.

Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)

Mae ENRaW yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cydweithrediadau a chyflawni camau gweithredu drwy brosiectau peilot i wella amgylchedd a bioamrywiaeth y tir o'n cwrpas yn ogystal â lles a iechyd meddwl y cymunedau a'r busnesau sy'n eu defnyddio ac yn eu mwynhau. Bydd camau'n

cael eu cymryd i wella seilwaith a mynediad i gyfleusterau lleol. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn dod ag ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Daeth y ffenestr EOI ENRaW-RDP gyntaf i ben ar 22 Tachwedd 2019. Derbyniwyd cyfanswm o 20 Datganiad o Ddiddordeb. Yn dilyn asesiad, gwahoddwyd pum prosiect i ddatblygu ceisiadau llawn i'r cynllun am werth o £14.4m. Mae'r ceisiadau llawn wedi'u harfarnu'n llawn ac mae pob prosiect wedi'i gymeradwyo.

Daeth yr ail gyfnod ariannu i ben ym mis Mawrth 2020 a derbyniodd 29 o Ddatganiadau o Ddiddordeb. Gohiriwyd penderfyniadau yn ymwneud â'r datganiadau hyn o ddiddordeb o ganlyniad i Covid-19. Yn dilyn cymedroli, gwahoddwyd ugain o'r prosiectau arfaethedig, yn gofyn am £16.8M o gymorth grant, i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau llawn erbyn mis Rhagfyr 2020. O'r ceisiadau hyn, mae 17 wedi cael eu gwerthuso a'u cymeradwyo'n llawn gyda'r 7 achos sy'n weddill yng nghamau olaf yr arfarniad. Dylai pob prosiect gael ei gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2021

Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi – Ffenestri adfer COVID-19

Yn dilyn Datganiad Ysgrifenedig blaenorol y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 8 Medi 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o Ffenestri Mynegi Diddordeb yn ymwneud ag ymateb ac adferiad COVID-19, fel a ganlyn:

- Ffenestr 8 - Camau Peilot ar gyfer Cydlyniant Cymunedol a chymorth Adfer Gwyrdd (cau Hydref 2020)

Gwahoddwyd pedwar cais gyda gwerth grant o £1,047,645 i symud ymlaen i'r cam ymgeisio. Mae dau o'r ceisiadau hyn bellach wedi'u cymeradwyo ac maent yn cyflawni.

- Ffenestr 9 - OCVO - Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (cau Tachwedd 2020)
- Ffenestr 10 - Twristiaeth Bwyd (cau Rhagfyr 2020)

Gwahoddwyd dau gais gyda gwerth grant o dros £3m i gyflwyno ceisiadau llawn. Mae'r gwaith o werthuso'r rhain yn parhau.

- Ffenestr 11 - Dulliau arloesol o Dyfu Cydweithredol (cau Ionawr 2021)

Gwahoddwyd pum cais gyda dyfarniad grant o £1,924,313 i gyflwyno cais llawn. Mae'r cais hwn am brosiect yn dal i gael ei werthuso.

- Ffenestr 12 - Cynllun Adfer Covid Bwyd (cau Chwefror 2021)

Gwahoddwyd wyth cais gyda dyfarniad grant o £2,958,591 i gyflwyno ceisiadau llawn. Mae'r rhain yn cael eu gwerthuso.

- Ffenestr 13 - Camau peilot ar gyfer twf gwyrdd a'r Economi Gylchol (cau Chwefror 2021)

Gwahoddwyd saith cais gyda dyfarniad grant o £1,066,730 i gyflwyno ceisiadau llawn. Derbyniodd chwech y gwahoddiad, a chyflwynwyd pum cais llawn erbyn y dyddiad cau. Mae'r rhain yn dal i gael eu gwerthuso.

Roedd y Ffenestri wedi'u gordanysgrifio.

LEADER

Mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER Cymru yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi eu cymunedau gwledig ar y cyfnod hwn o her ddigynsail. Mae LEADER wedi profi ei fod yn arf economaidd-gymdeithasol ddefnyddiol yn yr ymateb uniongyrchol i argyfwng Covid-19, ac roedd y camau gweithredu'n cynnwys:

- sicrhau a dosbarthu bwyd a chyflenwadau meddygol i bawb, gan gynnwys y rhai mwyaf ynysig/cymdeithasol
- nodi adnoddau lleol gan gynnwys cydlynu gwirfoddolwyr a chefnogi cadwyni cyflenwi byr
- rhwydweithio a chydweithio i sicrhau dull gwybodus a phriodol o ddiwallu anghenion lleol

Mae Uned Cymorth Rhwydwaith Gwledig Cymru Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau. Gweler: [Rhwydwaith Gwledig Cymru Adolygiad o Weithgareddau COVID 19 LEADER 2020 | Drupal \(gov.wales\)](#)

Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cymeradwyo ail-lunio'r Cynllun LEADER i barhau i gefnogi cymunedau gwledig drwy'r broses adfer.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer cynlluniau o dan Fesur 19 Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE 2014-2020 (CDG) i ddefnyddio rheoleiddio de-Minimis Diwydiannol yn y blynyddoedd sy'n weddill o'r rhaglen. Yn rhinwedd Erthygl 138 o Gytundeb Ymadael yr UE, rhaid i gynlluniau a agorwyd ac sy'n gweithredu o dan CDG 2014-20 barhau o dan reolau a rheoliadau cymorth gwladwriaethol yr UE.

Bydd cyflwyno de-Minimis Diwydiannol fel gwasanaeth Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER yn caniatáu iddynt barhau i gyflawni yn unol â 7 egwyddor allweddol methodoleg LEADER. Fodd bynnag, gyda darpariaeth de-Minimis Diwydiannol ar waith, byddant yn gallu rhoi cymorth i bobl, busnesau sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd sy'n eu cyfeirio at gymorth prif ffrwd Busnes Cymru ar y pwynt priodol.

Mae Canllawiau Cynllun Newydd i adlewyrchu'r newidiadau wedi'u cwblhau ac ar gael i bob GGLI.

Gwahoddwyd cyrff gweinyddol y Grŵp Gweithredu Lleol i gyflwyno eu ceisiadau ail-werthuso cynllun terfynol. Derbyniwyd 16 o'r 18 grŵp Gweithredu Lleol a gyflwynwyd ar gyfer eu prosiectau LEADER, sef cyfanswm o 60 o geisiadau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n prosesu'r ceisiadau ar hyn o bryd.

Daeth y Cynllun LEADER i mewn ar broffil ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Cyfanswm gwariant o £32.45m hyd at ddiwedd mis Hydref 2021.

20.2 Cymorth Technegol - Rhwydwaith Gwledig Cymru

Rhwydwaith Gwledig Cymru – Gweithgareddau Mai 2021 – Hydref 2021

- • Cyhoeddi Adroddiad Gwerthuso WRN - [2021 - WRNSU - Evaluation Report - Summary.pdf \(gov.wales\)](#)
- Comisiynu dau Gontract i goladu a hyrwyddo enghreifftiau o Arfer Gorau
 - o Dathlu Datblygu Gwledig – Ymgyrch
 - o Dathlu Datblygu Gwledig – Digwyddiad – 9 a 10 Mehefin 2022
- Cyhoeddi 11 Astudiaeth Achos newydd ar Wefan WRN
- Cyhoeddi 43 o Brosiectau newydd ar Wefan WRN
- Hyrwyddo'r Cynllun Datblygu Gwledig drwy 14 Cylchlythyr – (WRN; WRN yn Dathlu Gwledig; cyfraniadau i Gwlad, Cylchlythyr Cronfeydd yr UE; Cylchlythyr Adnoddau Naturiol)
 - o Mae tanysgrifwyr Cylchlythyr WRN yn parhau i godi'n raddol o fis i fis ac wedi cynyddu o 9,711 ym mis Mai 2021 i 9,798 ym mis Medi
- Cyflwyno digwyddiad Gwybodaeth ar gyfer Grwpiau Lleol yn dilyn ychwanegu Cymorth Gwladwriaethol De-minimis i'r Rhaglen LEADER
- Gwaith wedi'i gomisiynu i ddarparu meysydd cynnwys newydd ar gyfer y Wefan (sy'n debygol o fynd yn fyw erbyn dechrau mis Tachwedd)
- Caniatadau Mewnol a roddwyd i ychwanegu Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol WRN
 - o Instagram
 - o You Tube
- Ffigurau Cyfryngau Cymdeithasol –
 - o Facebook - 423 tudalen yn hoffi a 502 o ddilynwyr i'r dudalen ar 30 Medi 2021.
 - o Twitter - 1,853 o ddilynwyr ar 30 Medi 2021
- Ffigurau'r Wefan - 54,490 yn edrych ar y dudalen o'r 1 Ionawr 21 i 30 Medi 21 – Y nifer sydd wedi edrych ar y dudalen yw cyfanswm nifer y tudalennau a welwyd. Mae edrych mwy nag unwaith ar un dudalen yn cael eu cyfrif. (Ni allwn ganfod y ffigurau o fis Mai i fis Gorffennaf, gan fod camgymeriad o ochr Google).

Adran 1: Rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau wedi'u cymeradwyo o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael eu cyhoeddi'n fisol ar Wefan WEFO yn <https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020>

Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd fesul Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwywyd

£ Miliynau											
Blaenori aeth	Gweithredia dau	Dyraniad		Wedi'i neilltuo				Gwariant			
		Cyfansw m ¹	Grant yr UE ¹	Cyfanswm ²		Grant yr UE ²		Cyfanswm ³		Grant yr UE ³	
ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd											
1	35	415.2	275.7	466.9	(112%)	289.1	(105%)	268.0	(65%)	168.6	(61%)
2	8	290.3	181.0	395.7	(136%)	219.0	(121%)	338.3	(117%)	182.6	(101%)
3	18	193.5	133.2	169.7	(88%)	107.9	(81%)	88.8	(46%)	55.3	(41%)
4	38	656.8	430.8	697.3	(106%)	381.9	(89%)	173.3	(26%)	106.6	(25%)
5	7	28.0	20.9	29.8	(106%)	22.3	(107%)	18.9	(67%)	13.2	(63%)
Cyfanswm	106	1,583.8	1,041.5	1,759.3	(111%)	1,020.3	(98%)	887.2	(56%)	526.2	(51%)
ERDF Dwyrain Cymru											
1	19	178.4	91.2	180.9	(101%)	83.9	(92%)	88.4	(50%)	39.1	(43%)
2	8	78.9	39.7	110.4	(140%)	50.6	(127%)	105.4	(134%)	47.6	(120%)
3	1	7.9	3.9	7.1	(90%)	3.6	(90%)	6.9	(88%)	3.2	(81%)
4	6	78.5	37.2	77.8	(99%)	38.9	(105%)	23.4	(30%)	11.7	(31%)
5	6	7.1	3.5	7.2	(102%)	3.1	(89%)	4.8	(68%)	1.9	(54%)
Cyfanswm	40	350.7	175.6	383.4	(109%)	180.1	(103%)	229.0	(65%)	103.4	(59%)
Cyfansw m ERDF	146	1,934.5	1,217.1	2,142.7	(111%)	1,200.4	(99%)	1,116.3	(58%)	629.6	(52%)

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2021

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

² Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad

³ Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

Trosolwg o'r Rhaglenni

4. Mae dwy Raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn parhau i wneud cynnydd da gyda 146 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo yn ymrwymo £1,200 miliwn o grant yn cynrychioli 99% o werthoedd y rhaglen (98% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 103% yn Dwyrain Cymru) ar gyfradd gynllunio WEFO o 1.17/£. Gan gynnwys y gweithrediad olaf sy'n dal i fod yn y cam cynllunio busnes yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r lefelau ymrwymiad yn cynyddu i 101% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ond yn aros ar 103% yn Dwyrain Cymru. Mae'r rhain yn cyd-fynd â lefelau gorymrwymiad rhaglenni blaenorol ac mae'n risg y gellir ei rheoli er mwyn sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyllid yr UE yn ystod y cam hawlio terfynol.
5. Mae targed N+3 2021 wedi'i gyrraedd ar gyfer y ddwy raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

6. Hyd yma, mae bron i £541 miliwn (50% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd) a £103 miliwn (57% yn Nwyrain Cymru) wedi'i dalu i noddwyr prosiectau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ar hyn o bryd, mae taliadau gan y Gronfa gwerth £38.3 miliwn ar gyfer Gogledd Cymru a'r Cymoedd a £7.2 miliwn ar gyfer Dwyrain Cymru yn disgwyl cael eu hawdurdodi gan WEFO. Gan gynnwys y rhain, mae'r taliadau i noddwyr yn codi i £579 miliwn (54%) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £103 miliwn (61%) yn Nwyrain Cymru.
7. Mae'r ffigurau gwariant hyn ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop wedi arwain at dynnu cronfeydd i lawr gan y Comisiwn Ewropeaidd o 49% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 54% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru.
8. O ran cyflawni dangosyddion, fel yr adroddwyd o'r blaen, mae adolygiad o ddangosyddion ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'i gomisiynu. Bydd canfyddiadau cynnar yn cael eu gyflwyno i WEFO erbyn diwedd 2021.
9. Bydd angen addasu rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar ôl ystyried yr adolygiad o ddangosyddion ynghyd â'r ailddyraniad o gronfeydd o fewn yr echelau blaenoriaeth. Serch hynny, nid yw'r addasiad hwn yn debygol o gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni tan haf 2022.

Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

10. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae'r flaenoriaeth wedi'i hymrwymo'n llawn yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae galw mawr o hyd am gymorth Ymchwil ac Arloesi, gyda llif iach o geisiadau am gymorth ychwanegol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n cael eu cefnogi drwy ddadneilltuo mewn mannau eraill yn y portffolio. Mae pandemig COVID-19 wedi achosi rhywfaint o oedi o ran proffiliau cyflawni gweithrediadau, gan arwain at nifer o geisiadau am estyniad a dadneilltuo mewn gweithrediadau eraill. Cytunwyd ar rai estyniadau fel eithriad i fod ar waith tan 2023 ac maent yn cael eu monitro'n barhaus i sicrhau nad ydynt yn cwmpo ymhellach ar ei hôl hi.
11. Mae'r portffolio Ymchwil ac Arloesi yn cael ei arwain gan yr agenda arbenigo deallus sy'n cael ei adlewyrchu yn y gweithrediadau asgwrn cefn a gymeradwywyd law yn llaw â gweithrediadau arbenigol unigol. Mae'r portffolio yn cynnwys 54 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac Addysg Uwch. Mae llawer o'r rhain yn weithrediadau ledled Cymru ac wedi bod yn dechnegol iawn eu natur i'w cymeradwyo.
12. Y prif heriau o hyd yw cefnogi'r holl weithrediadau i gyflawni eu nodau gwreiddiol o ran cyflawni, cydymffurfio a gwariant. Ar yr adeg hon yn y Rhaglenni, mae adolygiadau rheolaidd a pharhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob gweithrediad yn cau'n effeithiol gyda hyblygrwydd cyfyngedig i gwmpo ar ei hôl hi.
13. Gan ystyried tystiolaeth wedi'i diweddarau o gymeradwyaethau cyfredol a thybiaethau rhagolygol, bydd targedau dangosyddion allweddol yn cael eu cyflawni ac, yn y meysydd canlynol, rhagorir arnynt:
 - Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd
 - Nifer y partneriaid sy'n cydweithredu mewn prosiectau ymchwil
 - Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell
 - Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell

Bydd unrhyw newidiadau i ddangosyddion eraill Blaenoriaeth 1 ar gyfer y ddwy Raglen yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad a gomisiynir yn allanol, gan gynnwys dadansoddi effaith pandemig COVID-19 ar gyflawni'r Rhaglenni. Bydd yr adolygiad yn ystyried o leiaf y canlynol:

- Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gefnogir
- Nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r farchnad
- Nifer y mentrau sy'n derbyn grantiau
- Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth nad yw'n gymorth ariannol
- Nifer y mentrau newydd a gefnogir
- Cynnydd mewn cyflogaeth

- Nifer y patentau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer cynhyrchion

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd ymhlith BBaChau

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

14. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
15. Un o'r risgiau allweddol ar gyfer y portffolio hwn yw buddsoddi lefelau sylweddol o gyllid mewn teulu agos o weithrediadau. Er bod hyn yn gwneud synnwyr perffaith yn strategol, mae'n golygu bod aliniad agos iawn rhwng gweithrediadau o ran cyflawni, cadw at y gyllideb a gwario'r cronfeydd sydd ar gael. Yn sgil hynny, mae gweithrediadau wedi datblygu ffyrdd agosach o weithio, er enghraifft proses draws gyfeirio rhwng y cymorth busnes a ddarperir gan weithrediadau Cefnogi BBaChau yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Banc Datblygu Cymru sy'n darparu cymorth ariannol drwy Gronfa Fusnes Cymru.
16. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi ymrwymo'n llawn, ond mae cyllid diwygiedig Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn ymateb i anghenion busnes oherwydd pandemig COVID-19 wedi cynyddu lefel y gorymrwymiad ar gyfer Blaenoriaeth 2 ond gan barhau i gadw lefel gorymrwymiad gyffredinol y Rhaglenni ar 101% ar gyfradd gynllunio WEFO o €1.17/£1. Mae gwariant dros y dyraniad ac mae ar 101% ar hyn o bryd.
17. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo'n llawn, ond mae cyllid diwygiedig Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn ymateb i anghenion busnes oherwydd pandemig COVID-19 wedi cynyddu lefel y gorymrwymiad ar gyfer Blaenoriaeth 2 ond gan barhau i gadw lefel gorymrwymiad gyffredinol y Rhaglenni ar 103% ar gyfradd gynllunio WEFO o €1.17/£1. Mae gwariant dros y dyraniad ac mae ar 120% ar hyn o bryd.
18. Mae angen addasu'r rhaglenni ymhellach i drosglwyddo arian i P2 o Flaenoriaethau eraill i roi cyfrif am addasiad i'r ERDF yr oedd ei angen arnom i reoli'r ymateb i COVID. Bydd y cyllid yn cael ei ailddyrannu o feysydd o'r rhaglen lle bu dadymrwymiaid annisgwyl, ond bydd hyn yn sicrhau na fydd arian yn cael ei golli i Gymru.
19. Gan ystyried tystiolaeth wedi'i diweddarau o gymeradwyaethau cyfredol a thybiaethau rhagolygol, bydd targedau dangosyddion allweddol yn cael eu cyflawni ac, yn y meysydd canlynol, rhagorir arnynt:

- Buddsoddi mewn mentrau
- Buddsoddiad preifat yn cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau
- Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth nad yw'n gymorth ariannol
- Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir
- Cynnydd yn y lefel allforio

Mae newidiadau i nifer o ddangosyddion o dan y ddwy Raglen yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad allanol, gan gynnwys:

- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy
- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau amrywiaeth

Bydd yr adolygiad hwn a gomisiynir yn allanol yn ystyried effaith pandemig COVID-19 ar ddangosyddion, gan gynnwys y ffaith bod cyfeiriad twf busnes presennol Blaenoriaeth 2 wedi gorfod cael ei addasu i oroesiad busnesau. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnwys dangosydd allweddol newydd ar gyfer y gweithrediadau cymorth busnes, sef swyddi a ddiogelwyd.

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

20. Ni fu unrhyw gymeradwyaethau pellach ers y Pwyllgor Monitro Rhaglenni diwethaf. Mae prosiect Ynni Dŵr Cymunedol Clydach yr adroddwyd amdano yn y Pwyllgor diwethaf wedi penderfynu tynnu'n ôl gan fod y cyfnod cyflawni bellach yn rhy fyr i allu ei gwblhau.
21. Mae Blaenoriaeth 3 wedi ymrwymo'n llawn i weithrediadau, gan ystyried prosiect Morlais sy'n cael ei ddatblygu. Mae WEFO yn gweithio'n agos gyda'r cyllidwyr eraill a datblygwyr Morlais er mwyn sicrhau bod gennym yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i wneud penderfyniad ariannu unwaith y cyrhaeddir y cerrig milltir arwyddocaol o ran cynllunio a chydysniad. Mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth hyn, ac ymhlith yr ystyriaethau o ran

cydymffurfiaeth mae ystyriaeth glir o amserlen realistig ar gyfer cyflawni o fewn cyfnod y rhaglen.

22. Mae'r prosiect ARBED ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn tai, y lleihawyd ei fait fel yr adroddwyd yn y Pwyllgor diwethaf, wedi cwblhau'r gwaith cyflawni ac mae'n gweithio i gau'r prosiect a hawlio ei grant yn llawn ym mis Mawrth 2022.
23. Mae COVID-19 wedi achosi rhywfaint o oedi o ran cyflawni yn y portffolio Ynni Morol, gan beri rhai risgiau, ond mae'r rhain yn cael eu monitro'n agos. Mae'r risgiau hyn yn rhai deublyg yn bennaf – diwedd cyfnod y rhaglen, sy'n cael ei ddeall a'i reoli, ac yn fwy diweddar cynnydd mewn costau, sy'n dechrau ymddangos yn arbennig ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag adeiladu.
24. Mae adolygiad o ddangosyddion ym mhob blaenoriaeth yn cael ei gomisiynu a gall hyn arwain at gynigion pellach ar gyfer diwygio dangosyddion Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn ddiweddarach.
25. Ni ragwelir unrhyw weithrediadau eraill ym Mlaenoriaeth Dwyrain Cymru ac mae ymrwymiad Dwyrain Cymru yn 90% o dan y gyfradd gynllunio 1.17 newydd.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

26. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
27. Mae lefelau ymrwymiad Blaenoriaeth 4 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng i 89% o ystyried bod dau weithrediad mawr wedi'u dadymrwymo'n ddiweddar. Mae Cynllun Gwella Cyffordd 15/16 yr A55 (£40.4m ERDF) wedi'i dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru gan fod y ffaith ei fod wedi'i gynnwys yn Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn golygu nad oes modd ei gyflawni bellach o fewn y cyfnod rhaglennu ac mae WEFO ei hun wedi tynnu Rhaglen Gwella Gorsafoedd Cymru (£15.4m ERDF) yn ôl yn dilyn cynnig cyfaddawd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd mewn cysylltiad ag anghydfod archwilio hir, sydd bellach yn caniatáu inni ailgylchu'r arian hwnnw mewn rhannau eraill o'r rhaglen.
28. Er bod y gweithrediadau hyn wedi'u tynnu'n ôl ac er gwaethaf cyfyngiadau Covid, mae'r flaenoriaeth yn parhau i gyflawni'n dda. Mae'r gwaith adeiladu naill ai wedi'i gwblhau neu ar fin cael ei gwblhau ar 11 o'n 21 safle ac eiddo 'llenwi bylchau' rhanbarthol, ynghyd â nifer o brosiectau o dan ymbarél Llywodraeth Cymru, sef Cyrchfannau Denu Twristiaeth, Adeiladu ar gyfer y Dyfodol a gweithrediadau Eiddo. Er bod gwaith bellach ar y gweill ar y rhan fwyaf o weithrediadau eraill o fewn y portffolio, mae'r cyfnod paratoadol hir ar gyfer prosiectau seilwaith yn golygu y bydd nifer, yn enwedig gweithrediadau'r Metro, yn rhedeg yn agos at ddiwedd y rhaglen.
29. Y prif heriau o hyd yw cadw'r holl weithrediadau ar y trywydd iawn o ran cyflenwi, cyllideb a gwariant. Mae buddiolwyr yn parhau i dynnu sylw at effaith Brexit a Covid ar y deunyddiau a'r adnoddau dynol sydd ar gael, ac ar gost deunyddiau. Mae hyn eisoes wedi arwain at dynnu nifer o brosiectau llai yn ôl o fewn gweithrediadau ymbarél Llywodraeth Cymru ac mae'n arwain at geisiadau ychwanegol i ymestyn amserlenni ERDF a phrosiectau mewn perthynas â gweithrediadau eraill. Mae'r amserlenni presennol mewn perthynas â gweithrediadau'r Metro a Ffyrdd, yn arbennig, yn golygu mai prin yw'r cyfle i weithrediadau lithro os ydynt am gael eu cwblhau o fewn y cyfnod rhaglennu.
30. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo 105% gydag oddeutu £31.5 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cael ei ddyrannu i'r Metro. Fel gyda Gogledd Cymru a'r Cymoedd, yr her yw sicrhau bod gweithrediadau'n cyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb. Ni ddisgwylir y bydd gweithrediadau'r 3 Metro mwyaf yn Dwyrain Cymru wedi'u cwblhau tan fis Gorffennaf/Awst 2023 felly ychydig iawn o hyblygrwydd sydd ganddynt i gwmpo ar ei hôl hi ac mae WEFO yn parhau i fonitro'r rhain yn agos.
31. Mae natur y buddsoddiadau seilwaith a gefnogir o dan Flaenoriaeth 4 yn golygu y bydd angen aros tan ran olaf cyfnod y rhaglen cyn gweld cynnydd sylweddol yn erbyn targedau allbwn. Fodd bynnag, mae'r flaenoriaeth ar y trywydd iawn i gyrraedd ei holl dargedau ac eithrio cyfanswm hyd y rheilffordd wedi'i hailadeiladu neu ei huwchraddio yn Dwyrain Cymru. Mae rhaglen Dwyrain Cymru wedi creu mwy o welliannau i orsafoedd, a llai o

welliannau i draciau, nag a ragwelwyd yn wreiddiol a bydd angen adlewyrchu hyn y tro nesaf y caiff y rhaglen ei haddasu.

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni

32. Ni fu cymeradwyaethau newydd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

33. Mae pob gweithrediad Cymorth Technegol wedi'u cymeradwyo ac yn cael eu cyflawni. Ni ragwelir unrhyw ymrwymiad pellach ar hyn o bryd.

Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau wedi'u cymeradwyo o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael eu cyhoeddi'n fisol ar Wefan WEFO yn <https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020>

Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd fesul Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwyd

£ Miliynau											
Blaenori aeth	Gweithredi adau	Dyraniad		Wedi'i neilltuo				Gwariant			
		Cyfansw m¹	Grant yr UE¹	Cyfanswm²		Grant yr UE²		Cyfanswm³		Grant yr UE³	
ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd											
1	19	185.6	146.5	234.6	(126%)	172.9	(118%)	129.1	(70%)	93.2	(64%)
2	22	375.7	271.4	683.3	(182%)	294.0	(108%)	433.9	(115%)	204.3	(75%)
3	20	260.7	193.9	309.9	(119%)	215.7	(111%)	217.1	(83%)	140.6	(73%)
4	6	18.8	13.9	25.9	(138%)	15.0	(108%)	17.1	(91%)	9.2	(66%)
5	6	10.6	8.0	15.9	(149%)	10.2	(127%)	1.9	(17%)	1.0	(12%)
6	0	92.3	68.4	0.0	(0%)	0.0	(0%)	0.0	(0%)	0.0	(0%)
Cyfanswm	73	943.7	702.2	1,269.6	(135%)	707.8	(101%)	799.0	(85%)	448.4	(64%)
ESF Dwyrain Cymru											
1	9	43.6	21.8	46.4	(106%)	23.2	(107%)	29.3	(67%)	16.0	(74%)
2	15	156.5	64.7	288.2	(184%)	72.8	(112%)	213.0	(136%)	46.8	(72%)
3	12	94.0	47.0	129.5	(138%)	49.7	(106%)	78.7	(84%)	30.0	(64%)
4	5	7.0	3.5	6.1	(87%)	3.0	(85%)	4.1	(58%)	1.8	(51%)
5	4	9.6	4.5	6.1	(64%)	3.0	(67%)	0.7	(7%)	0.3	(8%)
6	0	70.1	35.0	0.0	(0%)	0.0	(0%)	0.0	(0%)	0.0	(0%)
Cyfanswm	45	380.8	176.6	476.3	(125%)	151.8	(86%)	325.7	(86%)	95.0	(54%)
Cyfansw m ESF	118	1,324.5	878.8	1,745.9	(132%)	859.6	(98%)	1,124.8	(85%)	543.4	(62%)

Ffynhonnell: SCEC, 31/10/2021

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

² Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad

³ Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

Y Diweddaraaf am y Rhaglen

4. Mae ymrwymiad o 101% bellach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 86% yn Dwyrain Cymru (98% gyda'i gilydd) ar sail y gyfradd gynllunio newydd o £1=€1.17. Cyfanswm y cyllid sydd wedi'i ymrwymo yw £859m, sy'n £11m yn llai na'r hyn a nodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae hyn yn adlewyrchu dadneilltuo a gynlluniwyd yn deillio o rai gweithrediadau.
5. Mae lefelau ymrwymiad yn y tair blaenoriaeth fwyaf – Trechu Tlodi, Sgiliau Twf a Chyflogaeth leuenctid (Blaenoriaethau 1 i 3) - rhwng 106% a 118%. Mae'r lefelau ymrwymiad uchel presennol, ynghyd â'n bwriad i ymrwymo cyllid Blaenoriaeth 6 i helpu i dalu costau

pandemig Covid-19, yn golygu ein bod yn parhau i gynllunio ar gyfer gorymrwymiad mewn perthynas â rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

6. Mae'r cronfeydd a dalwyd i fuddiolwyr yn £448m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £95m yn Nwyrain Cymru – cyfanswm o £543m sy'n gyfwerth â 62% o gronfeydd y rhaglenni. Mae hyn wedi'i drosi yn ddatganiad grant i'r Comisiwn Ewropeaidd o 70% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 64% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru sy'n llawer uwch na chyfartaledd yr UE o 58% a chyfartaledd y DU o 42%.
7. Mae pob targed gwariant N+3 yn 2021 wedi'i gyflawni, ac mae targedau N+3 yn 2022 wedi'u cyflawni hefyd.
8. Hyd yma, mae mwy na 310,000 o gyfranogwyr wedi'u cofnodi (72% o dargedau terfynol cyfunol y rhaglenni). Mae dros 128,000 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau ac mae mwy na 30,000 wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith neu fynd yn hunangyflogedig.
9. Mae rhai gweithrediadau wedi gofyn am ymestyniad i'w dyddiadau terfyn, ac mae WEFO wedi cytuno i rai o'r ceisiadau hyn os oedd modd cyfiawnhau'r cais. Mae hyn wedi rhoi amser ychwanegol i weithrediadau adfer yn dilyn y tarfu gan Covid a pharhau i weithredu yn erbyn cefnlen ansicr o gyllido ar ôl ymadael â'r UE. Fodd bynnag, mae'r cyfle i gytuno i unrhyw ymestyniadau eraill ar gyfer gweithrediadau yn mynd yn fwy cyfyng o lawer wrth i ddiwedd y rhaglen agosáu.
10. Hyd yma, mae 4 o weithrediadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cwblhau'r broses terfynu prosiect, mae 7 arall wrthi'n dod i derfyn eu prosiectau, ac rydym yn disgwyl y bydd 3 arall yn cyrraedd eu dyddiadau terfyn erbyn diwedd y flwyddyn galendr.
11. Cafwyd effaith ysgytwol ar y farchnad lafur, ond nid yw'r darogan y byddai Covid-19 yn arwain at gynnydd mawr mewn diweithdra wedi'i wireddu. Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn hysbysebu mwy o swyddi gwag nag erioed o'r blaen, ac mae rhai sectorau yn wynebu prinder gweithwyr a sgiliau. Serch hynny, nodwyd bod grwpiau gwahanol o weithwyr a cheiswyr gwaith wedi cael eu heffeithio mewn ffordd wahanol iawn. Yn erbyn y gefnlen hon, mae llawer o'n prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl sydd bellaf o'r farchnad lafur, cefnogi uwchsgilio yn y gweithlu a chynorthwyo pobl ifanc i integreiddio â'r farchnad lafur, yn berthnasol iawn o hyd.
12. Mae adolygiad annibynnol o berfformiad y rhaglenni yn erbyn dangosyddion, gan gynnwys effaith Covid-19 ar gynnydd, ar waith ar hyn o bryd, a chyflwynir adroddiad cyn bo hir.

Adran 2: Cynnydd fesul Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

13. Bu un gymeradwyaeth newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Dyfarnwyd £2.3m o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop i **Job Sense Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** dan arweiniad Asiantaeth Cyflogaeth â Chefnogaeth Elite sy'n darparu gwasanaeth cyflogadwyedd arbenigol ar gyfer pobl â nam ar y synhwyrâu sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith yn hirdymor. Nod y prosiect yw cefnogi dros 230 o gyfranogwyr.
14. Mae'r Flaenoriaeth wedi ymrwymo 118% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 107% yn Nwyrain Cymru.
15. Hyd yma, mae'r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 72,000 o gyfranogwyr ledled Cymru. Rhagorwyd ar y targedau a bennwyd ar gyfer 2023 i ymgysylltu â chyfranogwyr a fu'n ddi-waith yn hirdymor a chyfranogwyr cyflogedig â nam neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
16. Mae'r uchafbwyntiau o ran perfformiad hyd yma yn cynnwys helpu 25% o gyfranogwyr economaidd anweithgar i gael gwaith yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 27% yn Nwyrain Cymru, gan ragori'n sylweddol ar y targedau o 20%. I'r rhai y mae dileu swyddi wedi effeithio arnynt yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae 65% o gyfranogwyr wedi ennill cymhwyster.
17. Mae rhai dangosyddion canlyniadau eraill ar gyfer cyfranogwyr yn cael eu hadrodd yn arafach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol gan brosiectau, yn rhannol oherwydd effaith y pandemig, a hefyd oherwydd yr angen i ddarparu cymorth am gyfnod hwy na'r disgwyl wrth weithio gydag unigolion sy'n wynebu rhwystrau niferus, hirhoedlog i weithio.
18. Mae'r prif faes ansicrwydd yn y Flaenoriaeth hon yn ymwneud â thargedau ar gyfer cyfranogwyr di-waith tymor byr a chyfranogwyr sydd wedi'u heffeithio gan brosesau dileu swyddi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Er bod y prosiectau cymeradwy yn rhagweld gweithgarwch digonol i fodloni targedau'r rhaglen erbyn 2023, mae sefyllfa bresennol y farchnad lafur yn awgrymu y bydd llai o bobl yn manteisio ar y prosiectau hyn na'r disgwyl. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad o ddangosyddion sydd ar waith yn helpu i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer Twf

19. Ni fu cymeradwyaethau newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
20. Dyfarnwyd £0.5m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru) ar gyfer **Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth 2 (KESS2)** fel bod modd ymestyn cyfnodau wedi'u hariannu rhai myfyrwyr os yw eu gwaith ymchwil wedi'i effeithio gan ffactorau Covid-19 megis cau labordai neu bartneriaid cwmni yn ystod y cyfyngiadau symud.

21. Lefel yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon ar hyn o bryd yw 108% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 112% yn Nwyrain Cymru.
22. Hyd yma, mae'r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 143,000 o gyfranogwyr ledled Cymru. Hefyd, rhagorwyd ar y targedau a bennwyd ar gyfer 2023 i ymgysylltu â chyfranogwyr benywaidd sydd ag addysg uwchradd uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru, a chyfranogwyr gwrywaidd sydd ag addysg uwchradd uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.
23. Mae cyfran y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau yn llwyddiannus ar ôl cwblhau eu hyfforddiant yn galonogol iawn yn gyffredinol, gan gyd-fynd â'r canrannau targed. Yr eithriad i hyn ar hyn o bryd yw'r maes ymchwil ôl-radd lle nad yw cyfran y rhai sy'n ennill cymwysterau yn cyrraedd y targed. Fodd bynnag, y prif reswm am hyn yw amserlenni dyfarnu cymwysterau a'r ffaith fod cyrsiau lefel doethuriaeth yn para am gyfnod hir.
24. Un uchafbwynt penodol o safbwynt yr amcan cydraddoldeb rhywiol yw'r ffaith fod 93% (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a 94% (Dwyrain Cymru) o fusnesau wedi llwyddo i fabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro, sy'n rhagori'n sylweddol ar y targed o 50%.
25. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd ymgysylltiad cyfranogwyr sydd ag addysg uwchradd is ychydig yn is na thargedau'r rhaglenni, tra y bydd ymgysylltiad y rhai sydd ag addysg uwchradd uwch yn rhagori ar y targedau (fel y nodwyd uchod). Gallai hyn awgrymu nad yw ein proses o osod targedau yn gyson â phroffil sgiliau'r gweithlu cyflogedig, er bod y targedau hyn wedi'u haddasu ar ôl diwygio'r rhaglen. Unwaith eto, y gobaith yw y bydd yr adolygiad o ddangosyddion yn helpu i ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad leuenctid

26. Ni fu cymeradwyaethau newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.
27. Dyfarnwyd £1.2m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Dwyrain Cymru) ar gyfer **Ysbrydoli i Gyflawni Dwyrain Cymru** o dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd er mwyn sicrhau bod darpariaeth Coleg Gwent a Chyngor Sir Fynwy o dan y prosiect yn parhau tan yr un dyddiad terfyn â phartneriaid eraill. Hefyd, dyfarnwyd £0.25m o gyllid ychwanegol o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) i **STEM Cymru 2** o dan arweiniad Cynllun Addysg Beirianeg Cymru er mwyn cynorthwyo'r gweithrediad i barhau am ddwy flynedd ychwanegol a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu cymryd rhan.
28. Hyd yma, mae'r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi 94,000 o gyfranogwyr ledled Cymru. Mae gweithgareddau sy'n cefnogi cyfranogwyr NEET yn dangos y lefelau perfformiad uchaf, ac mae targed 2023 ar gyfer ymgysylltu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn agos iawn at gael ei gyflawni. Mae cyfran y cyfranogwyr NEET sy'n cael swyddi (30% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 29% yn Nwyrain Cymru) ac yn ennill cymwysterau (26% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 29% yn Nwyrain Cymru) yn galonogol ac yn bodloni neu'n rhagori ar werthoedd targed y rhaglenni.

29. Ar y llaw arall, ar gyfer cyfranogwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET, ni fydd y niferoedd sy'n cael eu rhagweld a'u hadrodd gan weithrediadau cymeradwy yn ddigon i gyrraedd targedau'r rhaglenni. Roedd hwn yn un o feysydd arloesol y rhaglenni, ac roedd cymhwysedd cyfranogwyr yn seiliedig ar systemau nodi risg a ddatblygwyd gan AALLau a cholegau. O ganlyniad, mae'n bosibl bod y broses wreiddiol o osod targedau wedi amcangyfrif y byddai mwy o bobl ifanc yn cael eu nodi drwy'r systemau hyn fel pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET. Y gobaith yw y bydd yr adolygiad o ddangosyddion yn darparu rhywfaint o fewnbnw i'r mater hwn hefyd.

30. Lefel yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon ar hyn o bryd yw 111% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 106% yn Nwyrain Cymru.

Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol

31. Dim cymeradwyaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Lefel yr ymrwymiad yw 108% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 85% yn Nwyrain Cymru.

32. Mae'r pedwar Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn parhau i helpu i weithredu Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 drwy weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn perthynas â phrawfesur gweithrediadau arfaethedig o safbwynt rhanbarthol ac integreiddio gweithrediadau a gymeradwyir.

33. Mae'r gweithrediadau Cymorth Technegol cymeradwy eraill yn cynnwys refferniw ar gyfer CGGC i gyflwyno ei gynlluniau cymorth cynhwysfawr a gweithgarwch 3-SET, a refferniw i WEFO i roi'r Rhaglenni ar waith fel yr Awdurdod Rheoli. Ni ragwelir unrhyw ymrwymiad arall.

Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol

34. Ni fu cymeradwyaethau newydd yn y Flaenoriaeth hon ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

35. Lefel yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon ar hyn o bryd yw 127% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 67% yn Nwyrain Cymru.

36. Mae hwn yn bortffolio prosiectau cymharol newydd, felly mae'r broses o adrodd ar gyflawniadau dangosyddion newydd ddechrau. Hyd yma, mae'r sefyllfa yn galonogol, a rhagwelir y bydd cyflawniad gweithrediadau cymeradwy yn rhagori ar darged pob dangosydd. Mae adrodd hyd yma eisoes yn dangos cynnydd da yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y prosiectau a nifer yr endidau sy'n cymryd rhan.

37. Agwedd arloesol ar y Flaenoriaeth hon yw'r angen i gytuno ar ofynion tystiolaeth dangosydd y canlyniad ar gyfer y 'dulliau, gweithdrefnau ac adnoddau newydd' ar wahân gyda gweithrediadau ar gyfer pob dull/gweithdrefn/adnodd sy'n cael ei hawlio. Mae tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO yn gweithio'n agos gyda gweithrediadau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Blaenoriaeth 6: Rheoli COVID drwy Gapasiti

38. Nid oes unrhyw weithrediadau wedi'u cymeradwyo yn y Flaenoriaeth hon eto, ond mae ceisiadau am gyllid i gefnogi gweithgarwch GIG Cymru i fynd i'r afael â'r pandemig Covid-19 yn cael eu paratoi.

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020

RHOI'R THEMÂU TRAWSBYNCIOL AR WAITH: DATBLYGU CYNALIADWY, CYFLEOEDD CYFARTAL A PHRIF FFYRDIO RHYWEDD, TRECHU TLODI AC ALLGAU CYMDEITHASOL

Pwnc

1. Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r cynnydd o ran rhoi tair Thema Drawsbynciol yn Rhaglenni Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ERDF ac ESF 2014 - 2020, rhwng mis Medi 2020 a mis Tachwedd 2021.

Argymhelliad

2. Gwahoddir aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a'r llyfryn cysylltiedig, a darparu sylwadau.

Cefndir

3. Mae tair Thema Drawsbynciol yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020, Cyfleoedd Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy a Threch Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.
4. Mae'r ddwy thema gyntaf yn orfodol ac fe'u rheolir gan Reoliadau Cyffredinol yr UE, Erthygl 7 Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a pheidio â gwahaniaethu (yng Nghymru mae hyn yn cynnwys y Gymraeg) ac Erthygl 8 Datblygu Cynaliadwy. Hefyd, mae Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn Themâu Trawsbynciol sy'n benodol i Gymru yn unol â Llwyfan yr UE yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol (Cynllun Blaenllaw Ewrop 2020) ac fel un o brif ymrwymadau Llywodraeth Cymru. Mae'r Themâu Trawsbynciol yn gofyn am weithredu mewn sawl maes ac maent wedi'u hintegreiddio i holl feysydd y rhaglenni ESI.

Dangosyddion

5. Dyma'r dangosyddion Themâu Trawsbynciol y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Rhaglenni Gweithredol cyfredol ERDF ac ESF:
 - Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro
 - Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro
 - Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant (ESF yn unig)
6. Mae **Atodiad 1** yn dangos y gweithrediadau sy'n cyfrannu at y dangosyddion hyn. Mae canlyniadau Covid 19 a'r effaith ar lawer o weithrediadau wedi golygu y bydd rhai yn ei chael yn anodd cyflawni eu targedau canlyniad gwreiddiol hyd yn oed gydag estyniad ac ymdrech benodol i 'ddal i fyny'. Mae hyn yn arbennig o wir am weithrediadau sy'n cyflawni'r dangosyddion drwy raglenni iechyd yn y gweithle ac ar gyfer busnesau bach a chanolig, lle mae'n bosibl bod staff wedi cael eu rhoi ar ffyrlo ac o ganlyniad i hynny ychydig iawn o weithgarwch fydd wedi digwydd, os o gwbl. Rydyn ni'n gwneud ein gorau drwy'r cyfarfodydd adolygu, i roi gwybod i noddwyr bod modd iddynt gysylltu â ni a chael gafael ar gymorth ychwanegol gyda Themâu Trawsbynciol i helpu gyda hyn a meysydd eraill sy'n peri

pryder. Fodd bynnag, mae cynnydd yn cael ei wneud gan nifer o weithrediadau sydd wedi dweud bod gwelliant sylweddol o ran diddordeb, yn enwedig mewn perthynas ag arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth i ni symud drwy'r cyfnod hwn o'r pandemig.

Dangosyddion Lefel Prosiect Thema Drawsbynciol

7. Mae cynnwys targed ffurfiol yn sbardun pwysig i annog prosiectau i fynd i'r afael â'r Themâu Trawsbynciol. Mae hefyd yn golygu bod modd monitro cynnydd yn systematig dros oes y rhaglen.
8. Fodd bynnag, fel y tynnwyd sylw'r aelodau ato'n flaenorol, mae gan dargedau ffurfiol gyfyngiadau o ran dilysu'r ystod eang o weithgareddau cysylltiedig a wneir. At y diben hwnnw, mae'r wybodaeth yn **Atodiad 2** yn rhoi syniad o'r math o weithgaredd sy'n cefnogi'r Themâu Trawsbynciol. Nid yw'r data'n cymharu â'r hyn oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Themâu Trawsbynciol blynyddol i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen yn 2020, oherwydd mai dyma'r tro cyntaf i ni gynhyrchu data gwirioneddol a hawliwyd. Roedd y data blaenorol wedi'i ragweld ar sail yr hyn roedd y gweithrediadau'n dweud y byddent yn ei gyflawni. Mae'r data yn **Atodiad 2** yn dangos yr hyn yr hawliwyd a gyflawnwyd mewn gwirionedd. Nodir y bydd rhai o'r dangosyddion yn cael eu hawlio tuag at ddiwedd darpariaeth y gweithrediad e.e. agweddau datblygu cynaliadwy fel BREEAM, SUDs

Data Siaradwyr Cymraeg

9. Cesglir gwybodaeth am statws y Gymraeg drwy'r gronfa ddata o gyfranogwyr, ac mae'r dadansoddiad ar gyfer cyfranogwyr ar draws y ddwy Raglen ESF fel a ganlyn:

Y Gymraeg	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Dwyrain Cymru
Iaith a Ddewisir ar gyfer Cyfathrebu - Cymraeg	6% (7%)	2%
Yn Deall Cymraeg	16%	5%
Yn Siarad Cymraeg	15%	6%
Yn Darllen Cymraeg	13%	4%
Yn Ysgrifennu Cymraeg	12%	4%
Yn derbyn darpariaeth yn Gymraeg, naill ai'n 'rhannol' neu'n 'llawn'	11% (12%)	5%

Prin mae'r data wedi newid ers cyfnod adrodd 2019-2020 ()

Terfynnu Gweithrediadau

10. Wrth i'r rhaglenni symud i'r cam cyflenwi terfynol, mae terfynnu gweithrediadau'n dod yn rhan ganolog o waith yr Awdurdod Rheoli. Bydd gweithgaredd yn cynyddu yn y maes hwn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae'n argoeli y bydd 2023 yn flwyddyn hynod brysur gyda nifer sylweddol o weithrediadau yn cau ar gam terfynol y rhaglenni. Beth bynnag yw'r materion o ran adnoddau, datblygwyd Adroddiad Terfynu Themâu Trawsbynciol ar gyfer pob gweithrediad i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mor esmwyth â phosibl. Bydd modd poblogi llawer o'r adroddiad ymlaen llaw, a bydd yn cynnwys yr holl elfennau allweddol sydd eu

hangen i fynd ati i'w terfynu o safbwynt Themâu Trawsbynciol e.e. Asesiad Themâu Trawsbynciol o'r Cynllun Busnes gwreiddiol; cyfraniad dangosydd gyda thystiolaeth wedi'i gymeradwyo; gwerthuso Themâu Trawsbynciol; unrhyw gamau gweithredu a materion sydd heb eu datrys; deunydd cyhoeddusrwydd ar gyfer defnydd etifeddiaeth. Dylai'r broses sicrhau trywydd archwilio cadarn ar gyfer elfen Themâu Trawsbynciol y rhaglenni a gallu casglu gwybodaeth ymlaen llaw, gan atal ôl-groniad o waith ar ddiwedd y cyfnod rhaglennu.

Astudiaethau Achos

11. Er mwyn dangos rhywfaint o'r gwaith rhagorol a gyflawnir i gefnogi'r themâu trawsbynciol, ar draws y rhaglenni ac yn fertigol gyda phrosiectau penodol, mae'r Tîm Thema Drawsbynciol wedi paratoi llyfryn ar gyfer y rhaglenni ERDF ac ESF i gyd-fynd â'r adroddiad hwn. Mae'r cynnwys yn sampl o'r gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni ac mae llawer o enghreifftiau eraill o ddarparu gwaith sydd yr un mor dda. Ynghlwm hefyd, mae rhai o'r lluoedd negeseuon Trydar rydym wedi'u datblygu gyda chefnogaeth ein cydweithwyr yn Nhîm Cyfathrebu WEFO, i ddathlu diwrnodau rhyngwladol o ddiddordeb a sut mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn cefnogi'r rhain drwy weithgarwch a ariennir.

Gwaith Ehangach ar Themâu Trawsbynciol – Arferion Da Amgylcheddol

12. Yng nghyfarfod blaenorol Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020, cafodd aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am astudiaeth a lansiwyd yn 2019 gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd yn yr UE 'Integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis prosiectau a gefnogir gan y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd – Adolygu arferion ac argymhellion'. Nod yr astudiaeth oedd rhoi trosolwg o'r egwyddorion arweiniol, y profiadau a'r arferion da ar gyfer integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth ddewis prosiectau yng nghyd-destun y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (yn enwedig Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r Gronfa Gydlyniant) yn y cyfnod 2014-2020. Hefyd, gweithredu fel canllaw i Awdurdodau Rheoli drwy ddarparu cyfres o argymhellion ymarferol a gweithredol ar gyfer integreiddio'r amgylchedd yn well wrth ddewis y prosiectau i'w cefnogi gan ESIF wrth baratoi'r Rhaglenni Gweithredol ar gyfer y cyfnod 2021-2027.
13. Roedd Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol y DU wedi awgrymu wrth Gomisiwn yr UE y gallai Cymru fod yn astudiaeth achos addas. Yn ogystal, rhoddodd y Tîm Themâu Trawsbynciol gyflwyniad i DG Environment yn 2016 ar yr arferion da a gyflwynwyd drwy'r rhaglen ar ddatblygu cynaliadwy / cynaliadwyedd amgylcheddol yng Nghymru. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, ochr yn ochr ag ymchwil desg a gynhaliwyd gan COWI A/S a Milieu, dyfarnodd y consortiwm y contract ar gyfer yr astudiaeth, dewisodd DG Environment Raglen Weithredol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfer dadansoddiad manylach o'r astudiaeth achos.
14. Gohiriwyd cyhoeddi'r astudiaeth, a fwriadwyd ei chynnal yn haf 2020, ond mae bellach ar gael drwy glicio ar y ddolen ganlynol: [Integration of environmental considerations in the selection of projects supported by the European structural and investment funds - Swyddfa Cyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd \(europa.eu\)](#)

Y Camau Nesaf

15. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd o ran cyflawni'r Themâu Trawsbynciol.

Drafftwyd gan: Chriss O'Connell WEFO
Cymeradwyd gan: Sue Price WEFO
Dyddiad: 26 Hydref 2021

Atodiad 1:

**Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd y rhaglen Themâu Trawsbynciol Cyfle
Cyfartal:**

‘nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys y
system fonitro’.

y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Blaenoriaeth	Rhagolwg	Cy
Entrepreneuriaeth - ymru	Llywodraeth Cymru	ERDF Dwyrain Cymru	2	208	
Fusnesau Bach a - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	ERDF Dwyrain Cymru	2	939	
ymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Dwyrain Cymru	2	50	
Newydd Busnes asol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Dwyrain Cymru	2	25	
yblyg 2	Chwarae Teg	ESF Dwyrain Cymru	2	193	
Entrepreneuriaeth - ymru	Llywodraeth Cymru	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	535	
Fusnesau Bach a - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	2383	
ymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	250	
Newydd Busnes asol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	100	
S 2	Prifysgol Bangor	ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	10	

Atodiad 1:

**Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd y rhaglen Themâu Trawsbynciol Cyfle
Cyfartal:**

‘nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys y
system fonitro’.

y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Blaenoriaeth	Rhagolwg	Cy
-----------------------	-----------------------	----------------	---------------------	-----------------	-----------

Gilydd at Gymru lach ar Waith (naeth yn y Gwaith)	Llywodraeth Cymru	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	700	
nedl Hyblyg 2	Chwarae Teg	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	554	
ll Swyddi, Gwell ... i Fenywod mewn Cyflogaeth	Coleg Gŵyr Abertawe	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2	18	
ll Swyddi, Gwell ...i'r Tangyflogedig	Coleg Gŵyr Abertawe	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	50	
n Darparu Ffynnu	CBS Torfean	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	75	
n lach yn y Gwaith	Rhondda Cynon Taf	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	70	
Gorwelion ar Ynys Môn	Cymunedau Ymlaen Môn Communities Forward	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	229	
odi yn y Gwaith Sir Benfro	Cyngor Sir Penfro	ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	15	

Atodiad 1

Gweithrediadau sy'n cyfrannu at ddangosydd rhaglen Themâu Trawsbynciol

Datblygu Cynaliadwy ERDF:

'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys strategaethau a systemau monitro'

Teitl y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	C
Entrepreneuriaeth - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	Dwyrain Cymru	367	
Fusnesau Bach a Chanolig - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	Dwyrain Cymru	894	
Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	Dwyrain Cymru	50	
Gweydd Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	Dwyrain Cymru	25	
Fusnesau Bach a Chanolig - Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	2215	
Entrepreneuriaeth Busnes Cymru	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	589	

Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	250	
Yrwydd Busnes Cymdeithasol Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	100	
SEACAMS 2	Prifysgol Bangor	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	10	

Atodiad 1

Gweithrediadau sy'n cyfrannu at y dangosydd rhaglen Themâu Trawsbynciol Datblygu Cynaliadwy ESF:

'gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant'

Teitl y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	Cy
KESS II	Prifysgol Bangor	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu	Prifysgol Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr SO 1	Coleg Cambria	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr SO 2	Coleg Cambria	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ar gyfer Diwydiant 2 SO1	Coleg Gŵyr Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ar gyfer Diwydiant 2 SO 2	Coleg Gŵyr Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
wni drwy Brofiad Gwaith	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
Ysbrydoli i Gyflawni	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
METAL 2	Prifysgol Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
weithluoedd Drwy Ddysgu a Datblygu (GWLAD)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	

Atodiad 1

y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	Cy h
entisiaethau	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ReAct 3	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
forddeiaethau	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
siant Gweithredol	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
siant Gweithredol leuenctid	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
nedl Hyblyg 2	Chwarae Teg	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
RAC 11-24	Cyngor Sir Ddinbych	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
wellia Sgiliau entisiaethau	Llywodraeth Cymru	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ydoli i Weithio	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
Cynnydd	Cyngor Sir Penfro	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
Cam Nesa	Cyngor Sir Penfro	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ain Twf Busnes	Prifysgol Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
weithffyrdd II	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ni Fusnes Gogledd Cymru	Grŵp Llandrillo-Menai	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
ADTRAC	Grŵp Llandrillo-Menai	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	

y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	Cy h
n Darparu Ffynnu	Cyngor Sir Torfaen	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
o Sci Cymru	Llywodraeth Cymru -	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
hsgilio ar gyfer Diwydiant	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
I Swyddi, Gwell - I bobl dros 25 oed	Coleg Gŵyr Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
I Swyddi, Gwell - Pobl ifanc sydd rygl o fod yn NEET	Coleg Gŵyr Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
loesedd Cymru	Prifysgol Aberystwyth	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
stri Arloesedd ngwladol (IIM)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
lach yn y Gwaith	Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
odi yn y Gwaith Sir Benfro	Cyngor Sir Penfro	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
Gorwelion ar Ynys Môn	Cymunedau Ymlaen Môn Communities Forward	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
y'n ddi-waith am od byr Gweithio Abertawe	Dinas a Sir Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
s 25 oed sy'n ddi-am gyfnod byr weithffyrdd +	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
I Swyddi, Gwell i Fenwyd mewn Gwaith	Coleg Gŵyr Abertawe	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	1	
OPUS	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	0	

Atodiad 1

Titl y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	Cyfhy
u ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr SO1	Coleg Cambria	Dwyrain Cymru	1	
u ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr SO 2	Coleg Cambria	Dwyrain Cymru	1	
aglen Graddedigion naethau Ariannol Cymru	Welsh Contact Centre Forum Ltd	Dwyrain Cymru	1	
Cynnydd	Cyngor Sir Powys	Dwyrain Cymru	1	
ni drwy Brofiad Gwaith	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	Dwyrain Cymru	1	
thffyrdd a Mwy Powys	Cyngor Sir Powys	Dwyrain Cymru	1	
Prentisiaethau	Llywodraeth Cymru	Dwyrain Cymru	1	
Hyfforddeiaethau	Llywodraeth Cymru	Dwyrain Cymru	1	
hwysiant Gweithredol	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Dwyrain Cymru	1	
hwysiant Gweithredol leuenctid	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Dwyrain Cymru	1	
Cenedl Hyblyg 2	Chwarae Teg	Dwyrain Cymru	1	
TRAC 11-24	Cyngor Sir Ddinbych	Dwyrain Cymru	1	
a Sgiliau Prentisiaethau	Llywodraeth Cymru	Dwyrain Cymru	1	
sgiliau yn y Gwaith	Cyngor Dinas Casnewydd	Dwyrain Cymru	1	
i Fusnes Gogledd Cymru	Grŵp Llandrillo-Menai	Dwyrain Cymru	1	

Atodiad 1

Titl y Gweithrediad	Prif Fuddiolwr	Rhaglen	Rhagolwg	Cy h
g Spaces - Dysgu Tyfu	Growing Space	Dwyrain Cymru	1	
gilio ar gyfer Diwydiant	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Dwyrain Cymru	1	
METAL 2	Prifysgol Abertawe	Dwyrain Cymru	1	
Arloesedd Cymru	Prifysgol Aberystwyth	Dwyrain Cymru	1	
KESS 2	Prifysgol Bangor	Dwyrain Cymru	1	

Atodiad 2

Datblygu Cynaliadwy	ERDF Mis Medi '21	ESF Mis Medi '21
Datblygu Eco-god	18	27

Datblygu cadwyn gyflenwi leol	15	9
Integreiddio Seilwaith Gwyrdd	4	0
Integreiddio seilwaith glas	2	0
Cefnogaeth ar gyfer gweithgarwch bioamrywiaeth ar safle sy'n cael ei ariannu drwy'r Cronfeydd Strwythurol	4	0
Datblygu cynllun teithio sefydliadol a chynlluniau trafndiaeth gynaliadwy	30	13
Mesurau defnyddio adnoddau'n effeithlon	31	33
Cynlluniau rheoli'r amgylchedd ar safleoedd	8	0
BREEAM rhagorol lle bo hynny'n berthnasol	3	0
Cyflawni CEQUALL ar gyfer gweithgaredd adeiladu	0	0
Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDs) lle bo hynny'n berthnasol	2	0
BREEAM Da lawn	0	0

Cyfle cyfartal	ERDF Mis Medi '21	ESF Mis Medi '21
Camau gweithredu cadarnhaol - menywod	17	25
Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig	1	13
Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl ifanc	3	18
Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl hŷn	3	7
Mesur gweithredu cadarnhaol – pobl anabl	3	29
Camau gweithredu cadarnhaol - arall	0	13
Gweithgaredd Gwahanu Galwedigaethol	0	38
Gweithgaredd Cyflog Cyfartal	2	2
Menywod yn cymryd rhan mewn STEM	26	22
Gweithgaredd hyrwyddo'r Gymraeg	3	9
Gweithgaredd yn cefnogi siaradwyr Cymraeg	33	50
Ymgysylltu â'r Grŵp Mynediad i'r Anabl	2	6
Darpariaeth gofal plant	1	16
Darpariaeth gofal arall	1	4

Atodiad 2

Themâu Trawsbynciol Cyffredinol	ERDF Mis Medi '21	ESF Mis Medi '21
Gweithgaredd arferion da ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid	4	5
Datblygu / ymgysylltu â hyrwyddwyr Themâu Trawsbynciol	54	72
Integreiddio cymalau cymdeithasol	13	8
Datblygu Arweinlyfr Themâu Trawsbynciol, mecanwaith sylfaenol, Ap	5	1
Datblygu pecyn hyfforddi Themâu Trawsbynciol.	0	1
Cyflwyno rhaglen hyfforddi staff i Themâu Trawsbynciol.	2	10
Gweithgaredd sy'n cefnogi dangosyddion Themâu Trawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad yw'r dangosyddion yn bresennol)	3	10

Trechu Tlodi	ERDF Mis Medi '21	ESF Mis Medi '21
Gweithgaredd meithrin sgiliau cymunedol	16	6
Gweithgaredd mentora / eiriolaeth	5	51
Gweithgaredd cymorth gan gymheiriaid	1	8
Cynlluniau gwirfoddoli	7	28
Mudiadau sy'n talu'r cyflog byw	14	3

PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:

Strategaeth Monitro a Gwerthuso – Diweddariad ar Gynnydd

Pwnc

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Monitro a Gwerthuso ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod Covid-19 wedi cael effaith, ac yn parhau i gael effaith, ar waith y Tîm Ymchwil a Datblygu o gomisiynu a chyflawni gwerthusiadau; er enghraifft, cyfyngu ar yr amrywiaeth o ddulliau ymchwil sydd ar gael i werthuswyr, hygyrchedd cyfranogwyr ymchwil, trefn amserlenni.

Argymhelliad

2. Gofynnir i'r aelodau nodi a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed.

Cefndir

3. Mae Erthygl 110(1) o'r Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin yn datgan y bydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn archwilio'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r cynllun gwerthuso¹ a'r dilyniant a roddir i ganfyddiadau'r gwerthusiadau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn ystod y 12 mis diwethaf i'w gweld isod hefyd. Y Tîm Strategaeth sy'n arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.

Diweddariad ar Gynnydd

Gwaith ERDF ac ESF a gwblhawyd

- Cyhoeddwyd y **Gwerthusiad o Dîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET)** ar 20 Gorffennaf 2021. Mae Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) yn gweithredu o fewn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), gan ddarparu cymorth a chefnogaeth i'r trydydd sector ledled Cymru mewn perthynas â rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020.

Nod cyffredinol y gwerthusiad oedd asesu perfformiad y 3-SET, gyda'r amcan arall o helpu i lywio dull gweithredu'r 3-SET ar ôl Brexit a'i weithgarwch ar gyfer gweddill cyfnod rhaglennu 2014-2020 a thu hwnt. Mae hyn yn cael ei nodi yn ein rhaglenni gweithredol a'n canllawiau a bydd yn parhau i gael ei nodi, o fewn y fframwaith o reolau a chymau cymhwysedd.

Mae'r gwerthusiad yn dangos bod y 3-SET wedi bod, ac yn debygol o barhau i fod, yn wasanaeth effeithiol a gwerthfawr i'r trydydd sector yng Nghymru. Gallai ei gyfraniad yn yr ychydig flynyddoedd olaf fod yn werthfawr iawn o ran paratoi mudiadau i fod yn gynaliadwy yn y dyfodol y tu hwnt i gronfeydd strwythurol.

¹ Yng Nghymru, cyfeirir at y cynllun gwerthuso fel y Strategaeth Monitro a Gwerthuso

https://llyw.cymru/gwerthusiad-y-tim-ewropeaidd-y-trydydd-sector-3-set?_ga=2.70644889.887383592.1636713153-347467087.1611584904

- Dyfarnwyd y **Gwerthusiad o Seilwaith ERDF** i Hatch Associates ac mae'r contract bellach yn ei drydydd cam. Mae'r adroddiad gwerthuso cyntaf wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2020. Mae'r cyfraddau ymateb o ran arolygu busnesau a defnyddwyr ar gyfer cam olaf y gwerthusiad seilwaith wedi bod yn araf oherwydd effaith COVID-19. Fodd bynnag, mae gwaith maes wedi dechrau ac mae disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022.

Dyma'r mathau o seilwaith y mae'r gwerthusiad yn ymdrin â nhw:

- **Band eang:** Uwchraddio seilwaith band eang mewn ardaloedd nad ydynt yn dod o dan gynlluniau cyflwyno band eang cyflym iawn masnachol.
- **Ffyrdd a rheilffyrdd:** Adeiladu a gwella ffyrdd, rheilffyrdd a gorsafoedd rheilffordd.
- **Safleoedd ac eiddo:** Adeiladu a gwella safleoedd ac eiddo ar gyfer busnesau. Mae hyn hefyd yn cynnwys prosiectau adfywio canol trefi.
- **Campysau Addysg Bellach:** Adeiladu canolfannau dysgu ar gyfer myfyrwyr 16 oed a hŷn.
- **Campysau arloesi:** Adeiladu canolfannau ar gyfer ymchwil a datblygu, yn aml mewn sefydliadau addysg uwch (SAU). Meithrin gallu cwmnïau a SAU i dderbyn a darparu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau gwell a newydd.
- **Twristiaeth:** Gweithgareddau i wella atyniadau a safleoedd twristiaeth.

Mae camau cynnar y gwerthusiad wedi cynnwys Hatch Associates yn adolygu dogfennau prosiectau a rhaglenni ac ymgynghoriadau â rhanddeiliaid a data. Ar sail y gwaith hwn, nododd Hatch 50 o brosiectau ar draws rhaglenni 2000-2006 a 2007-2013 i'w hadolygu'n fanwl.

Mae Hatch Associates yn parhau â cham olaf y gwerthusiad, sy'n cynnwys yr arolygon cyffredinol a defnyddwyr y seilwaith. Bwriedir i'r gwerthusiad gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022.

- Cyhoeddwyd **Diweddariad ar y Rhag-Asesiad o Gronfa Fusnes Cymru** ar 25 Mawrth 2021. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar Gronfa Fusnes Cymru, offeryn ariannol sy'n darparu benthyciadau, mesanîn a buddsoddiadau ecwiti i fusnesau Cymru. Cynhaliwyd asesiad o'r farchnad, ac mae'r adroddiad yn rhoi sylwadau ar strategaeth fuddsoddi ddiwygiedig a'i pherthnasedd parhaus.

https://llyw.cymru/rhagasesiad-o-gronfa-busnes-cymru-cbc-diweddariad?_ga=2.128194437.887383592.1636713153-347467087.1611584904

- Cyhoeddwyd gwerthusiad terfynol y rhaglen **Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)** fel yr oedd yn weithredol rhwng 2015 a diwedd 2019 (a elwid gynt yn ReAct III) ar 13 Gorffennaf 2021. Prif nodau'r rhaglen oedd ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i bob sefyllfa o ddileu swyddi drwy gyfres o fesurau a luniwyd i liniaru effeithiau negyddol dileu swyddi. Ei nod oedd rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r holl unigolion wedi'u diswyddo er mwyn sicrhau cyflogaeth newydd a chynaliadwy cyn gynted â phosibl. Mae'n bwysig nodi bod y gwerthusiad hwn wedi'i gwblhau cyn dechrau pandemig y coronafeirws (COVID-19) yng Nghymru yn 2020. Felly, nid oes cyfeiriad at effaith y pandemig ar raglen ReAct yn yr adroddiad.

https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-raglen-gweithredu-diswyddiadau-react?_ga=2.9187388.887383592.1636713153-347467087.1611584904

- Cafodd y ddau **Arfarniad terfynol o Brentisiaethau a Hyfforddeiaethau** eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru (Chwefror 2021 ar gyfer prentisiaethau a mis Mehefin 2019 ar gyfer hyfforddeiaethau.) Mae'r adroddiadau'n cofnodi'r effaith y mae'r rhaglenni wedi'i chael ar ei ganlyniadau caled a meddal, y gwerth cyffredinol y mae'r rhaglenni wedi'i ychwanegu drwy ddadansoddiad cost a budd, y gwersi a ddysgwyd ar gyfer darparu rhaglenni tebyg yn y dyfodol a sut y gellir dyblygu arferion da a chael budd ohonynt.
https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-brentisiaeth-adroddiad-terfynol?_ga=2.75259675.887383592.1636713153-347467087.1611584904

https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-hyfforddeiaethau-adroddiad-terfynol-2015-i-2019?_ga=2.108198667.887383592.1636713153-347467087.1611584904
- **Gwerthuso'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol:** Cyhoeddwyd adroddiad **canol tymor** ar 2 Mehefin 2021. Disgwylir yr adroddiad terfynol yn 2022. Mae Adeiladu ar gyfer y Dyfodol yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector preifat i ailddatblygu adeiladau a thir nad ydynt yn cael eu defnyddio yng nghanol trefi a dinasoedd, neu rai sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r gwaith yn targedu tir ac adeiladau sydd wedi bod yn anodd i awdurdodau lleol eu defnyddio ac mae wedi'i ddylunio i gefnogi amcan polisi adfywio Llywodraeth Cymru o gynyddu bywiogrwydd a nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi Cymru.
https://llyw.cymru/gwerthuso-adeiladu-ar-gyfer-y-dyfodol-adroddiad-canol-tymor?_ga=2.40509355.887383592.1636713153-347467087.1611584904

Prosiectau gweithredol

- Mae'r **Astudiaeth Adolygu Dangosyddion ERDF ac ESF** yn cael ei chynnal gan Wavehill i archwilio'r cynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol Rhaglen Ewropeaidd Cymru a nodi'r rhesymau y tu ôl i unrhyw ddangosyddion a oedd ar ei hôl hi o ran y targed neu sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd targedau erbyn diwedd y rhaglen. Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.
- Mae'r **Gwerthusiad o'r Prosiect Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)** i fod i gael ei gyhoeddi yn dilyn dadansoddiad ddechrau 2022. Nod y gwerthusiad hwn yw ystyried i ba raddau y mae PaCE yn cael ei roi ar waith ac yn cyflawni ei nodau disgwyliedig, a chreu darlun o'i effeithiolrwydd o ran helpu cyfranogwyr i gyflawni canlyniadau cynaliadwy.
- Nod prosiectau **Cymunedau am Waith (CfW)** a **Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+)** yw darparu gwasanaethau cefnogi cyflogaeth ym mhob un o'r 52 Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Dyfarnwyd y contract ar gyfer gwerthusiad ar y cyd ym mis Medi ac mae'r cam Gwerthuso Prosesau yn mynd rhagddo. Disgwylir yr adroddiad Gwerthuso Prosesau ym mis Chwefror 2022. Bydd y cam gwerthuso canlyniadau yn cynnwys dadansoddi data monitro a data cyfranogwyr ac arolwg o gyfranogwyr. Disgwylir adroddiad terfynol ar gyfer y gwerthusiad ym mis Mawrth 2023.
- **Gwerthuso Safleoedd Cyflogaeth Strategol:** Mae gwaith maes wedi bod yn mynd rhagddo dros y 12 mis diwethaf. Mae cam olaf y gwaith maes yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a disgwylir y bydd yn dod i ben erbyn diwedd 2021. Y cam olaf yw cyf-weld

rhanddeiliaid a buddiolwyr ehangach i asesu effaith y prosiect. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod mis Chwefror 2022.

- **Gwerthuso Cychfannau Denu Twristiaeth:** Mae'r gwaith maes wedi aildechrau ar ôl bwlch hir o ganlyniad i COVID. Bydd y gwaith maes yn cael ei gynnal yn ystod gaeaf 2021 ac yna'n parhau yn ystod gwanwyn 2022. Bydd y gwaith maes yn canolbwyntio ar yr effaith yn y cyd-destun ehangach a bydd yn bwydo i mewn i'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.
- **Gwerthuso Arbed:** Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol ar fin cael ei lofnodi a'i gyhoeddi. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ddechrau mis Chwefror 2022. Bydd adroddiad terfynol mewnol yn cael ei baratoi rhwng mis Rhagfyr a mis Chwefror 2022 ar gyfer unrhyw allbynnau o ddangosyddion WEFO na chawsant eu hadrodd yn yr adroddiad gwerthuso terfynol.
- **Gwerthuso Prosiectau Rheilffyrdd:** Mae'r gwerthusiad interim yn cael ei gynnal ac mae gwaith maes yn mynd rhagddo. Mae hyn wedi wynebu rhywfaint o oedi oherwydd problemau gyda'r broses gyf-weld. Disgwylir i'r adroddiad interim gael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2022. Mae TrC yn parhau i recriwtio staff i reoli'r gwerthusiad.
- **Gwerthuso Prosiectau Ffyrdd:** Mae'r adroddiad gwerthuso interim wedi cael ei ohirio, mae wrthi'n cael ei gymeradwyo ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022. Bydd yr amserlenni gwerthuso terfynol yn cael eu cytuno ym mis Tachwedd 2021 oherwydd oedi cyn cyflawni. Mae Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gwerthuso interim ond ni fydd yn rhan o'r gwerthusiad terfynol gan nad yw Cyffyrdd 15 ac 16 yr A55 yn rhan o'r gwaith mwyach.

Prosiectau'r Dyfodol

- Mae'r **Gwerthusiad o Gymorth ERDF i Fusnesau** ar gyfer cyfnod rhaglen 2014-2020 wedi cael ei gomisiynu'n llwyddiannus. Bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar Gymorth ERDF i fusnesau dros gyfnod rhaglen 2014-2020. Bydd yn cynnwys arolwg busnes ar raddfa fawr a gwerthusiad o effaith y sefyllfa wrthffeithiol. Ateir y meysydd gwaith hyn gan adborth ansoddol manylach gan randdeiliaid ERDF a phrosiectau Cefnogi Busnes. Bydd y gwerthusiad yn darparu gwybodaeth werthfawr am y canlyniadau a gyflawnwyd gan y busnesau a gafodd gymorth a chefnogaeth ariannol gan brosiectau ERDF, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymchwil ac arloesi a chystadleurwydd busnesau bach a chanolig. Disgwylir i ganfyddiadau'r arolwg gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2022.
- Bydd ail gam **Arolwg Cyfranogwyr Cronfa Gymdeithasol Ewrop** yn dechrau ddiwedd mis Ionawr 2022 hyd at ganol 2023. Pwrpas yr arolwg yw darparu gwybodaeth amserol a chadarn am effeithiolrwydd prosiectau ESF cymeradwy er mwyn cyflawni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd (CE) mewn perthynas â chanlyniad tymor hwy a chynyddu dealltwriaeth o ba fathau o ymyriadau sydd fwyaf effeithiol i gefnogi cynnydd yn y farchnad lafur.
- **Gwerthusiad Terfynol o weithrediadau Busnes Cymru a'r Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn:** Mae'r gwaith cwmparu'n parhau ar gyfer cwblhau'r fanyleb ar gyfer y gwerthusiad terfynol. Bydd y fanyleb werthuso ddiwygiedig yn cael ei chwblhau

gyda'r bwriad o ddechrau'r ymarfer caffael tua diwedd 2021. Bydd y gwerthusiad yn cael ei gaffael yn gynnar yn 2022 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiad terfynol yn ystod haf 2023.

- **Sêr Cymru II:** Mae'r gwaith cwmpasu ar gyfer y gwerthusiad terfynol yn dod i ben ac mae'r fanyleb wrthi'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd. Y nod yw dechrau yn gynnar yn 2022 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2023.
- **Gwerthuso'r Gronfa Seilwaith Eiddo a'r Grant Datblygu Busnes Eiddo:** Mae'r gwerthusiad mewn cyfnod o seibiant nes bydd y cam terfynol yn dechrau ym mis Ionawr 2022. Mae cyfarfod rhwng y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS) a'r tîm polisi wedi'i drefnu i ailgychwyn y gwerthusiad.
- **Cyfes CAMPUS:** Mae'r gwerthusiad terfynol o'r effaith i fod i gael ei gomisiynu ym mis Tachwedd 2021.
- Mae'r gwaith o gwmpasu gwerthusiad Ex-post o'r Cronfeydd Strwythurol wedi dechrau, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r contract o fewn y tri mis nesaf.

Gwaith y Cynllun Datblygu Gwledig a gwblhawyd

- Ym mis Ionawr 2019, comisiynwyd SQW i gynnal y **Gwerthusiad o Cyswllt Ffermio**. Dyma nodau'r gwerthusiad:

- Asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gweithredu.
- Casglu tystiolaeth am natur a graddfa'r canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma ac i ba raddau y gellid ystyried bod y rhain yn ychwanegol.
- Dysgu beth sydd wedi gweithio a pham er mwyn helpu i lywio addasiadau i'r ddarpariaeth bresennol, yn ogystal â dyluniad rhaglenni yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad cyntaf yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf y gwerthusiad ac fe gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Roedd yr ail adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau o ail gam (cam terfynol) y gwerthusiad, ac fe gafodd ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2021.

https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/yr-uned-gefnogi-rhwydwaith-gwledig-cymru/gwerthuso-ac-ymchwil#paragraph_accordion_247--accordion-4

- Cyfrannodd y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso at **Werthusiad o Rwydwaith Gwledig Cymru (WRN)** a ddatblygwyd gan y Rhwydwaith. Roedd y gwerthusiad yn asesu pa mor effeithiol oedd gweithgareddau Rhwydwaith Gwledig Cymru o ran bodloni gofynion y Comisiwn Ewropeaidd, hwyluso gweithgareddau rhwydweithio a chydlynu gwasanaethau i ysgogi cyfnewid syniadau a phrofiadau. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys staff Llywodraeth Cymru, ac ymgysylltu â buddiolwyr cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig o bob rhan o'r rhaglen, yn ogystal â rhywfaint o waith dadansoddi ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2021 yn dilyn y cyfyngiadau cyn yr etholiad.

https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/cy/yr-uned-gefnogi-rhwydwaith-gwledig-cymru/gwerthuso-ac-ymchwil#paragraph_accordion_247--accordion-2

Prosiectau Gweithredol

- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu gwerthusiad o'r **Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)** a dyfarnu'r contract i OB3 Research, ar y cyd â'r Bartneriaeth BRO ym mis Tachwedd 2019. Dechreuodd cam cyntaf y gwaith maes yn ystod haf 2020, yn dilyn oedi oherwydd COVID-19. Roedd cam cyntaf y gwaith maes yn cynnwys adolygu data a deunyddiau monitro presennol, cyfweiliadau rhanddeiliaid gyda staff ac unigolion Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r prosiect, arolwg o brosiectau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, ac astudiaethau achos o brosiectau dethol. Disgwylir i'r cyntaf o ddau adroddiad diweddarau blynyddol gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Mae'r adroddiad cyntaf hwn yn nodi Damcaniaeth Newid ar gyfer y gwerthusiad ac yn cyflwyno prif ganfyddiadau gwerthusiad o'r broses. Bydd adroddiadau dilynol, a'r adroddiad terfynol yn benodol, yn adrodd yn fwy trylwyr ar ganlyniadau ac effeithiau'r cynllun. Mae ail gam y gwaith maes yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y gwerthusiad terfynol o'r effaith yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2022.
- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu **Arolwg o'r Grant Busnes i Ffermydd** a oedd yn ceisio edrych ar y defnydd o'r Grant Busnes i Ffermydd ymysg ffermwyr, rôl ac effeithiolrwydd gweithdai Ffermio i'r Dyfodol fel mecanwaith ar gyfer cael gafael ar y grant, ac effeithiau'r grant yn fwy cyffredinol ar fusnesau sy'n cymryd rhan. Dyfarnwyd y contract i Wavehill ym mis Rhagfyr 2019, ac fe gynhaliwyd cyfarfod cychwynnol hefyd ym mis Rhagfyr 2019. Roedd prif gamau'r gwaith maes yn cynnwys

cyfuniad o gyfweiliadau ac arolygon gyda mynychwyr y ddau weithdy a ddefnyddiodd y grant a'r rhai na ddefnyddiodd y grant. Defnyddiwyd Grwpiau Ffocws fel sail i ddyluniad yr arolwg a hefyd ar ôl yr arolwg i drafod y prif ganfyddiadau a ddaeth i'r amlwg. Roedd yr ymchwil i fod i ddechrau yn ystod gwanwyn 2020, ond cafodd hyn ei ohirio ychydig tan haf 2020 oherwydd Covid-19. Mae'r gwaith maes bellach wedi'i gwblhau ac mae'r adroddiad yng nghamau olaf y gwaith drafftio; disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod y tri mis nesaf.

- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu **Gwerthusiad o LEADER** ym mis Mehefin 2020. Bydd y gwerthusiad yn edrych ar roi LEADER ar waith yng Nghymru yn ogystal ag effaith LEADER fel mecanwaith ar gyfer cefnogi cymunedau gwledig. Yn dilyn arweiniad gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd y gwerthusiad yn edrych ar effaith LEADER o ran ei gyfraniad at well trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau a'i allu i arwain at ganlyniadau ac effeithiau gwell. Er mwyn helpu i asesu hyn, bydd y gwerthusiad yn ceisio cynnwys elfen hydredol i helpu i asesu gwerth tymor hwy dull LEADER. Dechreuodd y gwaith maes ym mis Medi 2020 lle cynhaliwyd cyfweiliadau gyda rheolwyr ac aelodau Grwpiau Gweithredu Lleol, staff Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y gwerthusiad a hefyd i gyfrannu at ddatblygu Damcaniaeth Newid. Cafodd prif gam y gwaith maes ei gwblhau ar ôl y cyfnod cyn yr etholiad ym mis Gorffennaf 2021. Cafwyd cyfanswm o 214 o ymatebion i arolwg ar-lein o'r rhai sy'n ymwneud â LEADER ledled Cymru, gyda 44 o gyfweiliadau dilynol dros y ffôn. Cynhaliwyd 25 o gyfweiliadau gyda chadeiryddion Grwpiau Gweithredu Lleol, rheolwyr cyrff gweinyddol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae adolygiad llenyddiaeth o ddatblygu lleol dan arweiniad y gymuned wedi cael ei gynnal hefyd. Rhoddwyd cyflwyniad o'r prif ganfyddiadau i staff Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2021. Mae'r adroddiad terfynol wrthi'n cael ei ddrafftio'n derfynol, a disgwylir ei gyhoeddi ddechrau 2022.
- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu gwerthusiad o **Gynllun Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)** ym mis Chwefror 2021. Bydd y contract yn para tan fis Ionawr 2023 yn unol â dyddiadau gorffen y prosiect. Cyflwynir y gwerthusiad mewn tri cham allweddol:
 1. Cam Cwmpasu: mae hwn wedi cael ei gynnal bellach ac roedd yn cynnwys cyfweiliadau â staff Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol allanol, adolygiad desg, a datblygu Damcaniaeth Newid a fydd yn cael ei phrofi yn ystod camau diweddarach y gwerthusiad. Cynhaliwyd y gweithdy Damcaniaeth Newid ym mis Gorffennaf 2021.
 2. Cam Interim: darparu adroddiad gwerthuso interim ar gyfer y cynllun a fydd yn canolbwyntio'n bennaf ar werthuso'r broses weithredu a'r effaith y mae prosiectau EIP wedi'i chael hyd yma.
 3. Cam Terfynol: darparu gwerthusiad terfynol i asesu effaith prosiectau EIP ac, yn ei dro, cyflawni cynllun gyda ffocws penodol ar natur a graddfa'r arloesi a pha mor effeithiol y mae'r canfyddiadau'n cael eu lledaenu'n ehangach yn y sector. Bydd Adolygiad Llenyddiaeth hefyd yn cael ei gynnal ar gyfer yr adroddiad terfynol.

Mae cam cyntaf y gwaith maes yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd yn para tan ddiwedd 2021 ac mae'n cynnwys arolwg dros y ffôn gydag Aelodau o'r Grŵp Gweithredol (OG) ar draws y 46 o brosiectau EIP. Yn dilyn hyn, bydd arolwg ar-lein o ymgeiswyr EIP aflwyddiannus yn cael ei gynnal, yn ogystal â datblygu astudiaethau achos. Disgwylir adroddiad interim yn ystod gwanwyn 2022.

- Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn edrych ar opsiynau i **asesu effaith ymyriadau'r Cynllun Datblygu Gwledig ar y sector amaethyddiaeth**. Mae'r dull a argymhellir gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer edrych ar hyn yn cynnwys cysylltu data ar ffermydd a gefnogir â data a gasglwyd fel rhan o Arolygon o Fusnesau Ffermio yr aelod-wladwriaethau (sydd yn eu tro yn cyfrannu at gronfa ddata FADN). Yng Nghymru, nid yw hyn yn bosibl oherwydd y prosesau casglu data sydd ar waith ar gyfer yr Arolwg o Fusnesau Ffermio Cymru. Yn unol â hynny, mae angen ystyried dulliau eraill sy'n ystyriol o bryderon ynghylch baich yr arolwg gyda'r boblogaeth ffermio. Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn edrych ar ymarferoldeb defnyddio setiau data presennol sy'n gysylltiedig â data cyfranogiad gyda chymorth y Cynllun Datblygu Gwledig i asesu effaith ymyriadau'r Cynllun Datblygu Gwledig ar y sector. Os nad yw hynny'n bosibl, rhagwelir y bydd angen ystyried gwaith arolwg sylfaenol wrth geisio lliniaru pryderon ynghylch arolygu ffermwyr. Mae'r gwaith hwn yn parhau ond ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r asesiadau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaid â GDPR y DU.
- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu OB3 i gynnal gwerthusiad o'r **Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)** ym mis Hydref 2021. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ym mis Tachwedd 2021 i gwblhau'r dull methodolegol a'r amserlenni ar gyfer y gwerthusiad yn derfynol. Disgwylir adroddiad interim ddiwedd 2022 ac yna adroddiad terfynol yn 2023.
- Fe wnaeth y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso gomisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS)** ym mis Hydref 2021, a fydd yn para am 12 mis. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar 3 Tachwedd 2021. Bydd y gwerthusiad hwn o'r broses a'r effaith yn defnyddio dull Damcaniaeth Newid i ddatblygu fframwaith gwerthuso a fydd yn rhoi sylw i'r canlynol:
 - Asesu gweithrediad cyffredinol y cynllun gan gynnwys prosesau ymgeisio, penderfynu a gwerthuso, ymgysylltu â buddiolwyr a rheoli'r cynllun.
 - Asesu a gwerthuso effaith gyffredinol prosiectau TBIS – gan roi sylw penodol i effeithiau amgylcheddol ac economaidd y cynllun.
 - Asesu gwerth am arian cyffredinol y cynllun.
 - Asesu aliniad y cynllun gyda'r cymorth sydd ar gael i'r sector ac, yn fwy cyffredinol, gydag amcanion polisi strategol Llywodraeth Cymru a'r UE.
 - Darparu argymhellion a gwersi a ddysgwyd.

Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi ddiwedd 2022.

Prosiectau'r Dyfodol

- Mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso wedi bod yn cydweithio â chydweithwyr polisi yn Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a drafftio manyleb ar gyfer gwerthuso dau gynllun grant y Cynllun Datblygu Gwledig yn y sector bwyd sy'n cynnwys y **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)** a'r **Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – Bwyd (RBISF)**. Yn ogystal ag asesu a gwerthuso FBIS ac RBISF, cynhelir adolygiad ochr yn ochr i archwilio'r gyfres ehangach o brosiectau'r sector bwyd o dan y **Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I)**, gan gynnwys **Prosiect Helix, Cywain a Sgiliau Bwyd Cymru**. Pwrpas y dull hwn yw ystyried yr effeithiau ehangach ar draws y sector bwyd er mwyn sicrhau bod asesiad ehangach o gymorth ar gael i fusnesau bwyd ac ystyried unrhyw fylchau posibl yn y ddarpariaeth. Mae'n debygol y bydd rhai busnesau bwyd wedi cael mwy nag un ymyriad drwy gydol cyfnod rhaglen

2014-2020. Mae'r fanyleb allan i dendr ar hyn o bryd a disgwylir y bydd y contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Rhagfyr 2021 a bydd yn para tan fis Mawrth 2023. Mae'r union ddulliau yn dal i'w cytuno ond disgwylir y bydd dau adroddiad terfynol drwy gydol y contract hwn.

- Bydd y gwaith o werthuso'r **Grant Cynhyrchu Cynaliadwy** yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021. O ystyried yr amserlenni cyflawni a'r amser a gymerir i gwblhau prosiectau, disgwylir y bydd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar y prosiectau hynny sy'n cael eu hariannu o dan y tair ffenestr gyntaf lle mae cyflawniad, ac felly'r effeithiau, yn fwy tebygol o allu cael eu hasesu.
- Roedd y gwerthusiad o **Gymorth Twristiaeth** i fod i gael ei hysbysebu yn ystod gwanwyn 2020. Fodd bynnag, oherwydd effaith COVID-19 ar y sector twristiaeth, roedd yn rhaid ailystyried amseriad a ffocws yr ymchwil hwn er mwyn ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd. Gan fod pandemig Covid-19 wedi parhau i effeithio ar y cynlluniau twristiaeth drwy gydol 2021, mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso a chydweithwyr ym maes polisi twristiaeth nawr yn bwriadu lansio'r gwerthusiad ddechrau 2022.
- **Ymgysylltu â ffermwyr a'u cefnogi** : Mae gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn ceisio edrych ar ymgysylltiad ffermwyr ag amrywiaeth o gymorth ar draws y rhaglen, eu cymhellion dros ymgysylltu â chymorth, ac unrhyw newidiadau yn eu harferion ffermio o ganlyniad i'w hymgysylltiad. Fel rhan o'r gwaith datblygu hwn, mae'r tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn ymgynghori â thimau eraill yn Llywodraeth Cymru i ystyried gofynion arolygu eraill er mwyn gallu defnyddio dull arolygu cydgysylltiedig er mwyn ceisio lleihau baich arolygon ar y boblogaeth ffermio yng Nghymru.

PWYLLGOR MONITRO RHAGLEN CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 - 2020:

Cynllun Gwybodaeth a Chyhoedduswydd Drafft ar Gyfer 2018 / 2019

Mater

1. Dyma'r Cynllun Cyfathrebu ar gyfer 2021 a 2022 ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ERDF ac ESF 2014–2020. Mae'r cynllun yn nodi'r prif flaenoriaethau a mesurau gwybodaeth a chyhoedduswydd ar gyfer y cyfnod hwn, a sut y cânt eu cyflawni.
2. Oni nodir fel arall, mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn y papur hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Hydref 2021.

Argymhelliad

3. Nodi a chytuno y Cynllun Cyfathrebu 2021 a 2022.

Cefndir

4. Paratowyd y cynllun hwn gan Awdurdod Rheoli'r rhaglenni, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cafodd ei lywio gan y Cynllun Cyfathrebu cyffredinol ar gyfer 2014-2020, y cytunwyd arno gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ym mis Mehefin 2015 ac mae'n ategu'r cynllun hwnnw.

Cyd-destun

5. Gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol ar ddechrau 2021 ar ôl cyfnod pontio wedi iddynt 'ddod i gytundeb'. Yn ystod y cyfnod hwn gwnaethom barhau i roi sicrwydd i randdeiliaid presennol a darpar randdeiliaid, a noddwyr, ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r rhaglenni, gan fuddsoddi'r holl gyllid a ddyrannwyd. Mae rhannu buddiannau a chyflawniadau cronfeydd yr UE yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o ran ein gweithgareddau cyfathrebu.
6. Rydym yn parhau i fod mewn cyfnod o ansicrwydd o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer cyllid newydd drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, sydd wedi'i ddwysau gan y trefniadau arfaethedig ar gyfer y cynllun peilot, y Gronfa Adfywio Cymunedol, sydd nawr yn broses geisiadau cystadleuol ar gyfer Awdurdodau Lleol dan arweiniad Llywodraeth y DU nad yw'n cynnwys unrhyw ddull ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r ceisiadau llwyddiannus wedi'u cyhoeddi ond rydym yn disgwyl oddeutu £10m ar gyfer Cymru. Mae swyddogion Trysorlys Cymru hefyd wedi cael gwybod o ganlyniad i'r oedi, y bydd y dyddiad cau ar gyfer gwariant prosiectau'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn cael eu hymestyn dri mis hyd diwedd mis Mehefin 2022.
7. Nid ydym yn siŵr sut y bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei dyrannu i'r gwledydd datganoledig. Fodd bynnag, mae datganiad Llywodraeth y DU yn adolygiad o wariant y DU (27 Hydref) y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn rhoi cyllid sy'n cyfateb i dderbyniadau ariannol yr UE ac y byddant werth £2.6 biliwn, a thros amser, cymaint ag

£1.5 biliwn y flwyddyn, yn golygu y bydd yn llawer llai na'r £375m blynyddol y byddai Cymru wedi'i gael o fis Ionawr 2021 pe bai'r DU wedi aros yn yr UE. Hefyd, mae'r cyhoeddiad diweddar ynglŷn â defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer cynllun rhifedd Multiply ar draws y DU hefyd yn codi pryderon gan fod hwn yn faes polisi datganoledig ac na fu unrhyw gyfraniad gan Weinidogion Cymru. Felly rydym yn parhau i weithio gyda thîm buddsoddi rhanbarthol y dyfodol, drwy ein cyhoeddusrwydd parhaus o lwyddiannau a buddion cyllid yr UE i'n busnesau, cymunedau a phobl, i ddylanwadu ar yr achos i Lywodraeth Cymru gael cyfrannu gyda Llywodraeth y DU tuag at gynllunio a darparu trefniadau olynedd yng Nghymru.

8. Gan weithio gyda'n noddwyr a'n rhanddeiliaid, rydym yn defnyddio nifer o sianeli cyfathrebu er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i gynnydd, cyflawniadau ac effaith: hysbysiadau yn y wasg / cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, yr e-gylchlythyr, a mesurau gwefan, sy'n parhau i ddenu nifer gynyddol o ddilynwyr a chynyddu cyrhaeddiad ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd.
9. Ers y diweddariad cyfathrebu blynyddol diwethaf i Bwyllgor Monitro'r Rhaglenni ym mis Tachwedd 2020, rydym wedi cyflawni 99% o sylw cadarnhaol ynglŷn â chronfeydd yr UE yn y wasg / cyfryngau. Hefyd, mae nifer y bobl sy'n tanysgrifio i'n e-gylchlythyr wedi cynyddu 21.7% o 10,712 i 13,038, ac mae nifer ein dilynwyr ar Twitter hefyd wedi cynyddu o 4,456 i 4,732.
10. Mae rhai digwyddiadau wedi cael effaith ar ein gweithgareddau a negeseuon cyhoeddusrwydd ar gyllid UE yn ystod y cyfnod o 12 mis diwethaf.

COVID-19 a'r cyfyngiadau symud parhaus

Cafodd y cyfyngiadau symud yn ystod y cyfnod (sydd wedi llacio yn ystod y misoedd diwethaf) effaith ar ymweliadau a digwyddiadau Gweinidogol, fodd bynnag rydym wedi gweithio gyda'r swyddfa breifat a buddiolwyr i ddod o hyd i ffyrdd addas o sicrhau bod cyfleoedd i sicrhau presenoldeb Gweinidogion. Gyda digwyddiadau ar-lein yn fwy cyffredin, rydym wedi gallu trefnu i Weinidogion barhau i roi prif areithiau mewn digwyddiad neu drwy glipiau fideo a recordiwyd ymlaen llaw, yn ogystal â gwneud trefniadau eraill, fel trefnu taith o gyfleusterau ar-lein.

Rydym hefyd yn parhau i gyhoeddi prosiectau a ariennir gan yr UE bob yn dipyn ar y cyfryngau cymdeithasol, gan annog arweinyddwyr prosiect i ddatblygu datganiadau i'r wasg os gallwn drefnu dyfyniad gan Weinidog.

Ar adeg ysgrifennu, gyda chyfyngiadau'n llacio, rydym yn dechrau cael mwy o wahoddiadau i Weinidogion ymweld â gweithrediadau a digwyddiadau hybrid (gydag unigolion yn bresennol yn y lleoliad ac ar-lein). Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i annog pobl i weithio gartref oni bai bod anghenion busnes penodol, felly rydym yn gweithio gyda'r swyddfa breifat i ddod o hyd i ffyrdd o ychwanegu gwerth i ymweliadau neu ddigwyddiadau drwy raglen a gynlluniwyd o ymweliadau i nifer o weithrediadau yn yr ardal.

Cyfnod Cyn-etholiadol Llywodraeth Cymru – 25 Mawrth – 6 Mai 2021

Cafodd unrhyw gyhoeddiadau ariannu a gweithgareddau cyfathrebu rhagweithiol eu hoedi yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw ymweliadau, digwyddiadau neu gyfarfodydd a oedd yn gofyn am bresenoldeb gweinidogol.

Cafodd hyn hefyd effaith ar gynllunio unrhyw ymgyrch cyhoeddusrwydd i nodi Diwrnod Ewrop (9 Mai) a gynhaliwyd y penwythnos ar ôl yr etholiadau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r dydd gyda pheth gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at allbwn lefel rhaglen. Cafodd hyn sylw gan y cyfryngau yng Nghymru a arweiniodd at rai erthyglau, ac fe wnaethom gyfathrebu gyda'n noddwyr a'u cynghori i nodi Diwrnod Ewrop yn eu ffordd eu hunain.

11. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl gyhoeddusrwydd a chyfathrebu yn ystyried y negeseuon allweddol ar ddatblygu cronfa fuddsoddi rhanbarthol yn y dyfodol, os yw'n briodol, gan gynnwys negeseuon allweddol ynglŷn ag adferiad economaidd ar ôl COVID.

12. Digwyddiad Gwybodaeth Blynnyddol WEFO 2021

Yn wreiddiol roeddem wedi bwriadu cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar-lein yn ystod y boreau ar ddiwedd mis Tachwedd / dechrau mis Rhagfyr yn lle'r Digwyddiad Gwybodaeth Blynnyddol undydd traddodiadol mewn lleoliad. Ein prif nod ar gyfer y digwyddiad blynnyddol oedd hyrwyddo llwyddiant a chyflawniadau'r rhaglen, ond rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i ystyried y dyfodol, gan wneud y digwyddiad yn fwy diddorol ac yn werth mwy i'r unigolion sy'n bresennol – mae hyn yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd oherwydd bod cyllid y dyfodol a chyfeiriad polisi ar flaen meddwl y buddiolwyr.

Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu, gan ein bod yn dal i fod yn ansicr ynghylch cyllid yn y dyfodol, rydym wedi penderfynu gohirio'r digwyddiad blynnyddol tan 2022, neu efallai chwarter cyntaf 2022, pan fydd y rhagolygon o ran cyllid yn gliriach. Yn lle hynny byddwn yn cynnal ymgyrch wythnos gyfan ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol, a fydd yn cynnwys animeiddiad, dolenni i glipiau fideo, astudiaethau achos ac ystadegau. Bydd hyn yn cynnwys trosolwg strategol lefel uchel o'r rhaglenni sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno mewn digwyddiad gwybodaeth blynnyddol yn ogystal â chynnwys sy'n canolbwyntio ar ddiwrnodau thema gan gynnwys: Adferiad Economaidd, Carbon Isel ac Arloesi.

Blaenoriaethau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ar gyfer 2021 a 2022

13. Bydd y prif flaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF yn genedlaethol a rhanbarthol fel a ganlyn:
 - hyrwyddo'r gwaith o gyflawni cronfeydd yr UE yng Nghymru a'i fanteision, gyda chonsensws mwy cadarn o ran pwysigrwydd cronfeydd yr UE i ffyniant Cymru, yn enwedig o ran adferiad ar ôl COVID-19, symleiddio negeseuon, a chyflawni sgôr darllenadwyedd Cymraeg clir uchel;
 - sicrhau bod noddwyr, partneriaid a rhanddeiliaid prosiectau cyflawni, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn parhau i ddeall gofynion rheoliadol o ran hyrwyddo rhaglenni ac yn cydymffurfio â nhw, fel nad yw cronfeydd yr UE yn cael eu peryglu;
 - sicrhau bod buddiolwyr presennol a darpar fuddiolwyr yn parhau i gael eu hysbysu am unrhyw drefniadau COVID-19 neu unrhyw effaith ar bolisiau a chyflawni yn sgil cyfyngiadau COVID-19;
 - defnyddio effaith cronfeydd yr UE i barhau i ddylanwadu ar benderfyniadau'r DU ar gyllid newydd ar gyfer Cymru er mwyn mynd i'r afael ag adferiad economaidd ar ôl COVID, heriau hirdymor eraill, a sicrhau bod rhanddeiliaid, noddwyr a'r cyhoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran polisi economaidd rhanbarthol

- a buddsoddiadau yng Nghymru yn y dyfodol;
- parhau i nodi arwyddocâd Diwrnod Ewrop (9 Mai) drwy weithio gyda noddwyr prosiectau i hyrwyddo buddiannau prosiectau a rhaglenni'r UE;
- parhau i gynyddu proffil themâu trawsbynciol a'r gwerth ehangach a grëir gan brosiectau yn y meysydd hynny, gan gynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o gyfleoedd allweddol fel y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil;
- datblygu cyhoeddusrwydd i greu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn unrhyw alwadau am gyllid newydd i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni rhaglenni ESF ac ERDF yng Nghymru;
- trefnu wythnos wybodaeth flynyddol ar-lein (w/d 6 Rhagfyr 2021) i ddathlu cyflawniadau'r rhaglenni;
- datblygu a chynllunio cyfres o ddigwyddiadau ar-lein yn 2022, gan gysylltu llwyddiannau'r rhaglen gyda chyfleoedd cyllid yn y dyfodol gan gynnwys cysylltiadau â rhaglenni eraill yr UE fel Horizon Ewrop.
- creu cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus i Weinidogion Cymru barhau i godi effaith barhaus prosiectau a ariennir gan yr UE;
- cynyddu potensial technolegau digidol / cyfryngau cymdeithasol newydd, lle bo'n briodol;
- parhau i integreiddio cyfleoedd a llwyddiannau gyda rhaglenni cyllid eraill yr UE fel rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a rhaglenni datblygu gwledig, a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Horizon Ewrop;
- gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a chynnwys cyhoeddusrwydd allweddol er mwyn llywio cyfathrebu yn y dyfodol.

Mesurau

14. Nodir y ffyrdd y caiff y blaenoriaethau hyn eu datblygu yn 2021/2022 yn y prif fesurau cyhoeddusrwydd yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cyflawni a'r amserlen ar gyfer gweithredu.

Prif weithgarwch gwybodaeth ar gyfer 2021 / 2022

15. Rydym yn awr yng nghyfnod olaf rhaglenni 2014–2020, gyda chynllun ar gyfer 100% o gronfeydd yr UE a phrosiectau a gymeradwywyd yn cyflawni buddiannau a cherrig milltir sylweddol. Felly, tra bydd cyhoeddiadau cyllido sy'n weddill yn parhau i gael cyhoeddusrwydd, mae mwy o gyfleoedd i ddangos effaith bywyd go iawn y prosiectau hyn ar bobl, cymunedau a busnesau, o ran adferiad economaidd ar ôl COVID yng Nghymru.
16. Bydd mesurau i hyrwyddo gweithgareddau prosiectau yn parhau i gysylltu â gweithgareddau i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni'n gyffredinol.
17. Bydd WEFO yn parhau i weithio gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector i helpu i gyflawni Strategaeth Gyfathrebu a chynlluniau blynyddol 2014–2020 yn effeithiol, wrth iddynt barhau i chwarae rôl bwysig yn helpu i hyrwyddo'r rhaglenni a'r prosiectau ar lefel ranbarthol a lleol.
18. Oherwydd bod y ffocws yn newid ar gyfleoedd cyllid yn y dyfodol yng Nghymru, byddwn yn gweithio gyda'r tîm buddsoddi rhanbarthol ac ar draws timau cyfathrebu Llywodraeth

Cymru ar negeseuon allweddol a gofynion cyfathrebu i'r dyfodol.

Cynnydd hyd yma - Hydref 2020 – Hydref 2021

19. Mae'r canlynol yn gipolwg ar weithgareddau cyfathrebu hyd yma:

- Sylw sylweddol i gyhoeddiadau cyllid yr UE yn y cyfryngau prif ffrwd, ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys:
 - Dyfarnu £3.6m o gyllid ESF ar gyfer y prosiect InFuse, dan arweiniad Cyngor Sir Fynwy ar y cyd ag awdurdodau lleol Rhanbarth y Brifddinas, Prifysgol Caerdydd, Y Lab Cymru a Nesta UK i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus arloesol i gymunedau lleol;
 - £1.2m o gyllid ESF ar gyfer prosiect 'Abertawe'n Gweithio' Cyngor Abertawe, sy'n cysylltu â rhaglenni Gweithffyrdd+ a Chymunedau am Waith i roi cefnogaeth i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor byr.
 - £1m o gyllid ERDF i Gyngor Sir Penfro i ddatblygu seilwaith ffordd a gwasanaethau ar gyfer parc bwyd yn Llwynhelyg, Hwlfordd, gan ddenu busnesau a gwaith i'r ardal leol.
 - £1.5m o gyllid ERDF ar gyfer prosiect *Circular Revolution* dan arweiniad Riversimple i sefydlu canolfan economi gylchol i ddatblygu cynaliadwyedd a helpu i dyfu'r economi Werdd yng Nghymru.
 - £6.2m o gyllid ERDF ar gyfer datblygiad Brocastle i ddarparu safle cyflogaeth strategol o ansawdd uchel i fusnesau presennol ac i ddenu buddsoddiad newydd i'r ardal.
 - £2.9m o gyllid ESF ar gyfer cynllun Galluogi Gweledigaeth Twf Rhanbarthol Gogledd Cymru a hybu twf economaidd, gan alluogi i'r rhanbarth fod yn wydn ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae manylion y sylw yn y cyfryngau / y wasg i'r rhain a phrosiectau eraill wedi cael eu cynnwys yn ein bwletinau monitro, sy'n cael eu hanfon drwy e-bost bob mis. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cysylltiadau cyhoeddus a gynhyrchwyd gan WEFO wedi cyflawni 99% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.

- Crëwyd cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer Gweinidogion i nodi cyhoeddiad, cyflawniad a cherrig milltir prosiectau, er enghraifft:
 - o Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd wedi agor Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru ym Mhrifysgol Abertawe, gyda chymorth ychydig o dan £4m o gyllid UE;
 - o Gweinidog yr Economi yn lansio cam 2021-2023 Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru gyda chymorth £6.4m mewn digwyddiad ar-lein;
 - o Y Gweinidog Newid Hinsawdd yn ymweld â'r fenter Lleihau Allyriadau Carbon Diwydiannol ym Mhort Talbot, gyda chymorth ychydig dros £7.5m o gyllid UE;
 - o Y Prif Weinidog yn agor Campws ArloesiAber yn swyddogol, gyda chymorth £23m o gyllid yr UE.
- Crëwyd cyhoeddusrwydd i hyrwyddo llwyddiant allweddol a cherrig milltir prosiectau gan gynnwys; MADE Cymru, Safle Cyflogaeth Strategol Llangefni, META / SELKIE (prosiect cydweithredu Cymru-Iwerddon), ADTRAC, SPECIFIC ac IMPACT.

- Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Medi gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol gan bwysleisio'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd gael cymorth cyflogadwyedd a busnes fel rhan o'r rhaglenni presennol, a thynnu sylw at berfformiad rhaglenni cyfredol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Roedd yr wythnos o ymgyrch, a oedd yn ymgyrch Cymru gyfan a rhanbarthol, yn ymdrin â 26 o weithrediadau ar draws pob sector (cyhoeddus, preifat a Thrydydd Sector). Roedd yn cynnwys animeiddiad, dolenni i glipiau fideo, astudiaethau achos, cyhoeddiadau, ac ystadegau allweddol ac fe gafodd 26,700 o argraffiadau (h.y. y nifer o weithiau y gwelodd bobl y trydariat ar Twitter).
- Gwnaethom barhau gyda themâu trawsbynciol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gysylltu gweithgarwch themâu trawsbynciol prosiectau yng Nghymru ar gyfer digwyddiadau fel Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, Diwrnod Alzheimers y Byd, Wythnos Cynhwysiant Pobl Dduon, Wythnos Ryngwladol Pobl Fyddar, Diwrnod Rhyngwladol y Merched, Diwrnod Amgylchedd y Byd, Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu Hiliol a Diwrnod Menopos y Byd. Mae'r negeseuon trydar hyn yn cael ymateb dda ar ein tudalen Twitter bob amser.

Er enghraifft, cafodd trydariat am EYST, gyda chymorth Cronfa Cynhwysiant Gweithredol WCVA (prosiect i gefnogi pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig 11-25 oed i ddod o hyd i waith / i fynd yn hunangyflogedig) a oedd yn gysylltiedig ag #WythnosCynhwysiantPoblDduon ym mis Mai, 1,090 o argraffiadau (h.y. sawl gwaith y gwelodd pobl drydariat). Yn yr un modd, cafodd trydariat am y nifer o fenywod a gefnogwyd gan Cyflawni drwy Brofiad Gwaith (prosiect sy'n ceisio lleihau'r risg y bydd pobl ifanc yn NEET – ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ei gysylltu ag #IWD (Diwrnod Rhyngwladol y Menywod) a pherfformiodd yn dda, gyda 2,603 o argraffiadau. Roedd y ddau yn drydariadau poblogaidd yn y misoedd dan sylw.

- Yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2020 a mis Hydref 2021, cafodd tua 295 o drydariadau eu cyhoeddi ac mae ein sianelau Twitter @wefowales / @wefocymru wedi cael dros 4,730 o ddilynwyr newydd. Cawsom nifer gyfartalog o 19,350 o argraffiadau bob mis (h.y. sawl gwaith y gwelodd pobl drydariat ar Twitter) sy'n cyfateb i ychydig dros 635 o argraffiadau bob dydd;
- Llwyddodd y newyddlen cyllid UE i gael 13,038 o danysgrifwyr – cynnydd o dros 2,320 o danysgrifwyr yn y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar gyfer rhaglenni a phrosiectau cyllid rhanbarthol hefyd yn cael eu cydlynu â rhaglenni cyllid eraill yr UE fel Horizon 2020 / Ewrop; yma, caiff straeon llwyddiant eu rhannu drwy e-gylchlythyr rheolaidd Horizon Ewrop, a Twitter.

Penderfyniad

20. Cymeradwyo'r Cynllun Cyfathrebu Blynyddol ar gyfer 2021/2022.

Camau nesaf

21. Y gangen Cyfathrebu i gyflawni i'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun Cyfathrebu a darparu diweddariad o'r cynnydd i'r Bwyllgor Monitro Rhaglenni yn ystod hydref 2020

Lead: Jo Binding, Tîm Cyfathrebu a Briffio WEFO

Cymeradwyo gan: Sue Price, Pennaeth Rheoli Rhaglennu (ERDF)

Dyddiad: Tachwedd 2021

Prif Fesurau Gwybodaeth a Chyhoedduswydd ar gyfer 2021 / 2022

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
Blaenoriaeth 1: Rhoi cyhoedduswydd i effaith a buddiannau rhaglenni cyllid yr UE sy'n buddsoddi mewn twf a swyddi cynaliadwy, gan gynnwys drwy gymeradwyaeth, lansiadau a chyflawniadau prosiectau, Diwrnod Ewrop, ac integreiddio'r Themâu Trawsbynciol	Grŵp targed – cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf, partneriaid cyflawni a strategol, y Comisiwn Ewropeaidd a'r cyhoedd	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.1 Rhannu straeon newyddion da â'r cyfryngau am gynnydd prosiectau a cherrig milltir rhaglenni ar gyfer sylw mewn print ac ar-lein, gan sicrhau dros 90% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.	Mesurau cyhoedduswydd penodol i gynnwys: - cyhoeddi datganiadau i'r wasg, erthyglau golygyddol am gymeradwyaethau a cherrig milltir prosiectau, a chynnydd cyffredinol rhaglenni i bapurau newydd, sianeli newyddion ar-lein a gwefan Llywodraeth Cymru – darparu dyfyniadau Gweinidogol yn cynnwys negeseuon strategol allweddol ar gyfer datganiadau i'r wasg a ddatblygwyd gan noddwyr prosiectau/partneriaid	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg, noddwyr prosiectau, Tîmau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.2 Dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff straeon yn ymwneud â chronfeydd yr UE a phrosiectau a ariennir gan yr UE eu hadrodd yn y cyfryngau	Mesurau penodol i gynnwys: – darparu ymatebion cynhwysfawr ac amserol i ymholiadau gan y cyfryngau gan gynnwys cyd-destun cefndirol, ffeithiau allweddol, ystadegau, a dyfyniadau gan Lywodraeth Cymru	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a swyddfa'r wasg	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
1.3 Defnyddio technoleg newydd a sianeli digidol fel adnoddau cyfathrebu allweddol, gan gynnwys cynhyrchu lluniau digidol i hyrwyddo negeseuon allweddol, effaith rhaglenni, ac astudiaethau achos a cherrig milltir prosiectau	I'w cyhoeddi ar YouTube, Twitter a'u defnyddio mewn digwyddiadau. Yn arbennig, paratoi a rhannu clipiau fideo o brosiectau, cyfranogwyr a datblygu graffigau o ffeithiau diddorol er mwyn sicrhau bod y cyhoeddusrwydd yn cael cymaint o effaith â phosibl	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau, Tîmau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati.	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.4 Trefnu ymweliadau Gweinidogol â phrosiectau ledled Cymru – i nodi cyhoeddiadau cyllido, lansiadau a cherrig milltir cyflawni.	Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys: – trefnu cyhoeddusrwydd ynglŷn ag effaith a manteision prosiectau (gan ganolbwyntio ar astudiaethau achos â diddordeb dynol), yn ogystal â chynnydd ehangach y rhaglenni drwy anfon datganiadau i'r wasg, trydariadau, tudalennau gwe cronfeydd yr UE, e-gylchlythyr ac ati. Cyhoeddi trydariadau a lluniau byw yn ystod ymweliadau a digwyddiadau er mwyn ymgysylltu ymhellach â chynulleidfa eang Os byddwn yn parhau i fod o dan gyfyngiadau cenedlaethol a/neu lleol: - trefnu cyfranogiad Gweinidogion mewn digwyddiadau ar-lein a chydlyn cyhoeddusrwydd y digwyddiadau hyn fel uchod.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru, noddwyr prosiectau, Tîmau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
1.5 Drafftio e-gylchlythyr a'i ddosbarthu i dros 6,000 o danysgrifwyr gan gynnwys rhanddeiliaid, noddwyr prosiectau a'r cyhoedd.	– Amlygu datblygiadau a chyflawniadau diweddaraf rhaglenni a phrosiectau, digwyddiadau sydd i ddod, a gwybodaeth a chanllawiau ar gyflawni rhaglenni 2014–2020 gan gynnwys unrhyw alwadau am gyllid ar gyfer blaenoriaethau penodol y rhaglen – Integreiddio datblygiadau â rhaglenni cyllid eraill yr UE, gan gynnwys Horizon 2020 a rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd	Tîm Cyfathrebu WEFO	Misol

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
1.6 Mynd ati i achub ar gyfleoedd i ddangos effaith gadarnhaol cronfeydd yr UE/polisi rhanbarthol yng Nghymru	Paratoi astudiaethau achos / straeon llwyddiant sy'n tanlinellu cyflawniadau prosiectau a chyfranogwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys rhai noddwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn rhannu negeseuon allweddol yn eang e.e. Tasglu'r Cymoedd, Dinas-ranbarthau ac ati	Tîm Cyfathrebu WEFO	Parhaus
1.7 Hyrwyddo Diwrnod Ewrop (9 Mai) yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd	Mesurau cyhoeddusrwydd i gynnwys: – Gwaith mewn cydweithrediad â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch effaith cronfeydd yr UE a phrosiectau yng Nghymru – cyhoeddi cylchlythyr cronfeydd yr UE arbennig ar gyfer Diwrnod Ewrop yn ystod wythnos Diwrnod Ewrop	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid, gan gynnwys Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector ac ati	9 Mai
1.8 Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a mentrau wedi'u harwain gan UE fel yr UE yn fy Rhanbarth, EYCH, RegioStars a gweithgareddau cyfathrebu eraill yr UE er mwyn dangos llwyddiant yng Nghymru wrth gyflawni rhaglenni'r UE ar lwyfan yr UE.	– Cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiwn Ewropeaidd a chynrychiolwyr cyfathrebu'r DU. – Sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf ar lefel Cymru i gyflawniadau yn deillio o gyfranogi fel rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau Cymru o ran EYCH a RegioStars drwy hysbysiadau yn y wasg, Twitter ac ati.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfeydd y CE ym Mrwsel, Caerdydd a Llundain	Parhaus
1.9 Parhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sianeli cyhoeddusrwydd eraill	– Datblygu dull brandio newydd ar gyfer stondinau dros dro ac ati, cynrychioli ardaloedd rhanbarthol a meysydd thematig – Parhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo fel y bo'n briodol.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Parhaus
2.0 Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau, astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau, cyflwyniadau ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau ac astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau, cyflwyniadau ac ar gyfryngau cymdeithasol.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
Blaenoriaeth 2: Parhau i sicrhau bod noddwyr prosiectau, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoliadol o ran hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF ac yn cydymffurfio â nhw	Grŵp targed – noddwyr prosiectau a buddiolwyr, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector. Y prif gamau gweithredu yw'r Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau (cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru), cynnal seminarau ar y gofynion rheoliadol ar gyfer staff WEFO, y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector a noddwyr prosiectau er mwyn sefydlu sianeli cyfathrebu priodol rhwng WEFO a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector.	WEFO, ar y cyd â'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
2.1 Adolygu arferion gorau o ran Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoliadol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau a buddiolwyr a'u rhoi ar waith	- sicrhau bod mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y broses cyflawni prosiect a'u bod yn cael eu monitro gan WEFO er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth; – ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ymholiadau cyfathrebu gan staff WEFO a noddwyr.	WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol / Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector	Cyhoeddi canllawiau ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ac ymgymryd ag adolygiad parhaus i gwmpasu arferion gorau
2.2. Adolygu cyfleoedd ar gyfer seminarau gloywi ar ganllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a'r gofynion ar gyfer noddwyr, a rhannu arfer gorau	Seminarau gloywi i gwmpasu gofynion rheoliadol yr UE a gofynion cytundebol yr Awdurdod Rheoli, blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, arferion gorau, a blaengynllunio a monitro ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol; wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector, staff WEFO a noddwyr prosiectau.	WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
2.3 Cymryd rhan mewn adolygiadau prosiect rheolaidd gyda noddwyr, a chwrdd â swyddogion cyfathrebu prosiectau lle y bo'n briodol	– Sicrhau yr eir i'r afael â gweithgareddau cyfathrebu prosiectau, arferion gorau a chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd adolygu prosiectau	Tîm Cyfathrebu WEFO ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector a noddwyr prosiectau	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
	– Adolygu a darparu cyfraniadau golygyddol ar gyfer cylchlythyrau rhanbarthol Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, lle bo'n briodol – Cymryd rhan yng nghyfarfodydd WEFO gyda Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyfathrebu ac arfer gorau		
2.4 Dosbarthu placiau a phosteri coffaol am ddim i bob noddwr sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo o dan raglenni 2014–2020 (yn unol ag Erthygl 8 y Rheoliadau Ewropeaidd)	– Placiau a phosteri coffaol am ddim, yn arddangos logo'r cronfeydd UE perthnasol, i'w dosbarthu i bob noddwr prosiect waeth beth fo gwerth y grant. – Dylunio, drafftio testun, a dosbarthu poster A3 i brosiectau eu harddangos	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
<u>Blaenoriaeth 3:</u> Trefnu digwyddiad blynyddol i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni	<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, y cyfryngau a'r cyhoedd.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Gaeaf
3.1 Trefnu digwyddiad blynyddol ar gyfer rhaglenni yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr, gan gynnwys cydnabod cyflawniadau'r rhaglen	– Oherwydd y cyd-destun presennol, cynnal ymgyrch ar-lein ar ddechrau mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar effaith a manteision cyllid UE i Gymru drwy gydol cyfnod y rhaglen bresennol 2014-2020. Cyhoeddi e-Newyddlen i gyd-fynd â'r ymgyrch, gyda chynnwys ychwanegol. - Cynllunio a datblygu cynnwys ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau ar-lein ar gyfer 2022, a fydd yn tynnu sylw ymhellach at gyflawniadau rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ac yn cysylltu â rhaglenni eraill yr UE fel Horizon Ewrop a threfniadau olynnydd ar gyfer rhaglen Cymru-lwerddon yn ogystal â chyfleoedd ariannu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu yn y gaeaf/yn barhaus drwy gydol y flwyddyn

Mesur	Gwybodaeth Ychwanegol	Cyfrifoldeb Arweiniol	Amserlen ar gyfer Gweithredu
	– Ystyried trefniadau ar gyfer digwyddiadau ar-lein neu hybrid pellach neu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn ystod hydref 2022.		
Blaenoriaeth 4: Cynnal a chadw a diweddarau adran cronfeydd yr UE dwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru	<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, awdurdodau rheoli eraill yr UE, y cyfryngau a'r cyhoedd.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
4.1. Sicrhau ei bod yn hawdd llywio adrannau'r wefan a'i bod yn ystyriol o ddefnyddwyr, a bod cynnwys yn gyfredol	Adolygu cynnwys yn rheolaidd er mwyn cyflawni swyddogaethau busnes craidd, gan gynnwys mynediad at WEFO Ar-lein, drwy arolygon ar-lein, adborth ac ati	Tîm Cyfathrebu WEFO	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
4.2. Datblygu cronfa ddata â pheiriant chwilio ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd (yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd)	Materion technegol gyda rheoli cynnwys gwefan newydd Llywodraeth Cymru. Y gwaith wedi'i ohirio oherwydd COVID 19. - Parhau i gyhoeddi taenlen Excel o brosiectau a ariennir gan yr UE a chynigion cynllunio busnes yn fisol ar ein tudalennau gwe, sy'n fwy na'r gofynion rheoleiddio gan yr UE.	Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â Thîm Gwefannau Canolog Llywodraeth Cymru	Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn
Blaenoriaeth 5: Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a chynnwys cyhoeddusrwydd allweddol er mwyn llywio cyfathrebu yn y dyfodol	<u>Grŵp targed</u> – at ddibenion mewnol yn bennaf, ond rhannu arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd â rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'r Comisiwn Ewropeaidd.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Parhaus
5.1 Gwerthuso ymgyrch gan ddefnyddio model gwerthuso a gydnabyddir ledled y DU	Sicrhau bod model gwerthuso OASIS yn cael ei ddefnyddio er mwyn adolygu a gwerthuso gweithgareddau fel digwyddiad blynyddol ac ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Diwrnod Ewrop.	Tîm Cyfathrebu WEFO	Parhaus
5.2 Gwerthuso'r cyfryngau cymdeithasol, y we a'r wasg yn barhaus er mwyn adolygu ac addasu effeithiolrwydd cynnwys	Creu a rhannu adroddiadau gwerthuso misol ac addasu templed er mwyn cadw i fyny â blaenoriaethau sianel newidiol	Tîm Cyfathrebu WEFO	Misol

